

# Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15

www.gov.uk/cnpa
www.gov.uk/cnc

# Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol â Pharagraff 12 Atodlen 10 a Pharagraff 7 Atodlen 12 Deddf Ynni 2004

Argraffwyd dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 14 Gorffennaf 2015

HC 182

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddalwyr yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau parthed y cyhoeddiad hwn atom yn:
Civil Nuclear Constabulary Headquarters,
F6 Culham Science Centre, Abingdon, OX14 3DB

ISBN Print 9781474117456
ISBN y We 9781474117463

ID P002720817 07/15

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr
Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad y Cadeirydd a Phrif Gwnstabl | 6 |
| Uchelgais, Cenhadaeth a Chredo | 8 |
| Sylwebaeth Rheoli | 9 |
| Adroddiad Strategol | 9 |
| Adroddiad Cynaliadwyedd | 18 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 22 |
| Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol | 27 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil a'r Swyddog Cyfrifyddu | 33 |
| Datganiad llywodraethu | 34 |
| Adroddiad Archwiliad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd | 44 |
| Datganiadau Ariannol 2014/15 | 46 |

# Datganiad y Cadeirydd a Phrif Gwnstabl

Ystadegau Allweddol



Rydym yn diogelu

**11**

safle niwclear ar draws y wlad

Mae'r adroddiad cynhwysfawr hwn yn arddangos yn glir bod y flwyddyn wedi bod yn un brysur a heriol. Mae hefyd yn dangos bod: y Cwnstabliaeth Niwclear Sifil (CNC) wedi cyflawni ei gennad; yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil wedi parhau i ddarparu sefydliad effeithiol ac effeithlon; a'r Tîm Gweithredol wedi parhau i reoli'r busnes anodd o gynllunio strategol a chyflawniad o ddydd i ddydd.

Gellir cael blas o'r hyn y bu'r CNC yn rhan ohono o'r rhestr hon, sy'n bell o fod yn gynhwysfawr.

## Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- Darparu cymorth cilyddol i ymgyrch yr heddlu yn uwchgynhadledd NATO yng Nghymru ym Medi 2014. Cafodd swyddogion y CNC ei lleoli dros gyfnod o chwe diwrnod fel y prif amddiffynwyr arfog ym meysydd awyr Bryste a Chaerdydd, ble roedd arweinwyr y byd yn cyrraedd i gymryd rhan yn yr uwchgynhadledd;
- Lleoli'r Grŵp Tywys Strategol am dri mis i gefnogi'r broses gwagio tanwydd yn adweithydd Imperial College, Llundain. Daeth yr ymgyrch yma i ben gyda gosgordd ffordd lluoedd lluosog llwyddiannus;
- Mewnosod Cod Moeseg y Coleg Plismona ar draws holl gyflogeion y Cwnstabliaeth yn unol â heddluoedd y Swyddfa Gartref;
- Cyflwyno Cerbydau gydag Amddiffyniad Balistig;
- Cwrs mewnol cyntaf y CNC i hyfforddi ein Hyfforddwyr Arfau Cenedlaethol ein hunain;
- Darparu hyfforddiant 'ar y safle, ar shifft' am y tro cyntaf i'r holl swyddogion arfog gweithredol; a
- Dyfarniad trwydded arfau tanio gan y Coleg Plismona a derbyn canmoliaeth am ein hymagwedd arfer gorau.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r CNC wedi parhau i ehangu fel heddlu arfog sy'n gallu lleoli patrolau gwrthderfysgaeth proffil uchel.

Rydym yn dal i weithio tuag at weithredu holl dechnegau a thactegau unedau heddlu arfog y Swyddfa Gartref, er mwyn i ni gyrraedd y lefel uchaf o allu i ryngweithredu. Rydym yn gwneud hyn wrth gydnabod bod gennym rôl ddiffiniedig ac arbenigol sydd, ac a fydd yn parhau i fod, yn brif ffocws.

Yn olaf, rhaid cofio i ni weld lefel y bygythiad i swyddogion heddlu'r Deyrnas Unedig yn cynyddu eleni. Mae'r CNC yn rhan allweddol o'r amddiffyn a roddir i seilwaith cenedlaethol critigol y Deyrnas Unedig, ac mae ein staff yn falch o'r hyn maent yn wneud i gadw'r wlad yn ddiogel.



**Syr Philip Trousdell**
Cadeirydd



**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol
a Phrif Gwnstabl

# Uchelgais, Cenhadaeth a Chredo

Ystadegau Allweddol



Dros

**1,000**

o Swyddogion Arfau Awdurdodedig

## Ein Huchelgais

I gael ei gydnabod fel awdurdod blaenllaw'r Deyrnas Unedig ar ddiogelu arfog cyfleusterau a deunyddiau niwclear sifil wrth eu symud.

## Ein Cenhadaeth

Mewn partneriaeth â'r diwydiant niwclear sifil, asiantaethau diogelwch cenedlaethol a chyrff rheoleiddio, bydd y CNC yn atal unrhyw ymosodwr sydd â'r bwriad o ddwyn neu ddifrodi deunydd niwclear, p'un a yw'n sefydlog neu ar daith. Os bydd ymosodiad yn digwydd, bydd y CNC yn amddiffyn y deunydd hwnnw ac yn gwrthod mynediad iddo. Os yw'r deunydd yn cael ei gipio neu os bydd cyfleusterau canlyniadau uchel yn cael eu peryglu, bydd y CNC yn adfer rheolaeth o'r cyfleuster ac yn adennill cystodaeth o'r deunydd.

## Ein Credo

Rydym yn falch i fod yn rhan o'r strwythur diogelwch sy'n amddiffyn y genedl. Rydym yn cyflawni ein cenhadaeth trwy gael ein recriwtio, hyfforddi, lleoli a datblygu i'r lefel ofynnol o safonau cenedlaethol a rhyngwladol. Gallwn gyflawni ein dyletswyddau mewn modd hyblyg a deinamig, gan sefydlu synnwyr pendant o ddiben ynom ein hunain. Os ydym yn defnyddio grym, fe wnawn hynny mewn modd sy'n gymesur i'r bygythiad, gan gydnabod a chynnal egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Rydym ni, os yn swyddogion, yn enghreifftio yn ein dyletswyddau'r ardystiad a wnaethpwyd ar ein diwrnod cyntaf o wasanaeth:

**"Rwy'n datgan yn ddifrifol ac yn gywir ac yn cadarnhau y byddaf yn gwasanaethu'r Frenhines yn dda a chywir yn y swydd o gwnstabl, gyda thegwch, cywirdeb, diwydrwydd ac amhleidioldeb... gan barchu pawb yn yr un modd."**

Fel aelodau o staff rydym yn rhannu'r delfrydau hyn; pob un ohonom beth bynnag yw ein rôl yn cydnabod mai dim ond trwy gydweithio y gellir cyflawni'r genhadaeth.

Mae gennym y dewrder i nid yn unig gyflawni'r genhadaeth, ond hefyd i herio'n hunain yn gyson i wella a datblygu. Rydym yn anhunanol yn ein gorchwyl o sicrhau budd cenedlaethol, yn rhoi hyder i'n cyd ddinasyddion fod deunydd niwclear sifil yn ddiogel rhag unrhyw fygythiad terfysgol.

# Sylwadau Rheoli

## Adroddiad Strategol

### Prif Weithgareddau

Mae'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA) yn gorff cyhoeddus anadrannol (NDPB) o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC). Fe'i sefydlwyd dan y Ddeddf Ynni 2004 ac mae'n gyfrifol am sicrhau Cwnstabliaeth Niwclear Sifil (CNC) effeithiol ac effeithlon y mae ei brif swyddogaeth i ddiogelu safleoedd niwclear trwyddedig a symudiad diogel deunydd niwclear yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r CNPA yn goruchwylio'r CNC ac yn cyflogi ei swyddogion a staff. Mae'r CNC yn darparu gallu ymateb arfog i'r diwydiant niwclear sifil, gydag unedau gweithredol wedi eu lleoli mewn safleoedd niwclear trwyddedig. Mae'r CNC yn rhannu cyfrifoldeb gyda gweithredwyr safleoedd a chludwyr am ddiogelu deunydd a chyfleusterau niwclear, ac am symud deunydd niwclear yn ddiogel o fewn y Deyrnas Unedig a thramor.




### Amcanion, Strategaethau a Model Busnes

Priodolwyd gweithgareddau'r CNPA yn 2014/15 i'r 4 amcan strategol canlynol:

| | |
|---|---|
| **Amcan Strategol 1**<br>Rhwystro ac Ataliaeth | I atal a rhwystro bygythiadau diffiniedig Tybiaethau Cynllunio Galluoedd Maleisus Diwydiannau Niwclear (NIMCA) i safleoedd niwclear trwyddedig a deunyddiau a hebryngir. |
| **Amcan Strategol 2**<br>Gallu i Ymateb | I ddatblygu a chynnal ein gallu i ymateb i fygythiadau diffiniedig NIMCA i safleoedd niwclear trwyddedig a deunyddiau a hebryngir. |
| **Amcan Strategol 3**<br>Hyder Rhanddeiliaid | I sicrhau hyder ein rhanddeiliaid o ran cyflawni ein huchelgais a chenhadaeth. |
| **Amcan Strategol 4**<br>Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | I optimeiddio ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni ein gwasanaethau. |

Cefnogir pob amcan strategol gan hyd at bum blaenoriaeth strategol. Rheolir perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hyn gan y Tîm Gweithredol ac fe adroddir arno i Fwrdd y CNPA.

**Ystadegau Allweddol**



Dros

**140**

o AFOs Benywaidd

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae amcan strategol 1 wedi ei ategu gan dair blaenoriaeth strategol:

| Rhwystro ac Ataliaeth | Perfformiad 2014-15 |
|---|---|
| Cynnal ymateb arfog 24/7 mewn safleoedd niwclear trwyddedig | Cyflawnwyd |
| Darparu hebryngyddion arfog ar gyfer symud deunyddiau niwclear | Cyflawnwyd |
| Cwblhau ymgodiad gallu a medr a chynyddu lefelau lleoliad | Cyflawnwyd yn bennaf |

Mae amcan strategol 2 wedi ei ategu gan bum blaenoriaeth strategol:

| Gallu i Ymateb | Perfformiad 2014-15 |
|---|---|
| Datblygu polisïau / athrawiaethau integredig trwy fecanweithiau sicrwydd cryf | Cyflawnwyd yn bennaf |
| Cynyddu lefelau galluogrwydd gweithredol trwy raglenni hyfforddiant ac ymarferion | Cyflawnwyd yn bennaf |
| Gweithredu systemau awdurdod a rheoli ar draws y CNC | Cyflawnwyd yn bennaf |
| Darparu galluoedd adfer | Cyflawni'n rhannol |
| Datblygu ein harweinwyr a rheolwyr gweithredol | Cyflawnwyd yn bennaf |

Mae amcan strategol 3 wedi ei ategu gan bedair blaenoriaeth strategol:

| Hyder Rhanddeiliaid | Perfformiad 2014-15 |
|---|---|
| Cynyddu hyder rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda gweithredwyr safleoedd, heddluoedd lleol a'n hadran nawdd | Cyflawnwyd yn bennaf |
| Adeiladu cydweithredu a gwaith partneriaeth yn fewnol ar draws y CNC | Gohiriwyd tan 2015/16 |
| Cynnydd morâl a gwella datblygiad, perfformiad a dargadw ein pobl | Gohiriwyd tan 2015/16 |
| Cyflawni ymgysylltu a chyfathrebu effaith uchel | Cyflawni'n rhannol |

Mae amcan strategol 4 wedi ei ategu gan bedair blaenoriaeth strategol:



| Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | Perfformiad 2014-15 |
|---|---|
| Cyflawniad effeithiol o wasanaethau corfforaethol | Cyflawnwyd yn bennaf |
| Wedi trawsnewid effeithlonrwydd ein busnes | Gohiriwyd tan 2015/16 |
| Moderneiddio a gwella ein seilwaith TGCh a gwella ei ddiogelwch | Cyflawni'n rhannol |
| Datblygu ein harweinwyr a rheolwyr corfforaethol | Gohiriwyd tan 2015/16 |

## Model Busnes

| | |
|---|---|
| **Pwy ydyn ni** | Mae'r CNPA yn gorff corfforedig a sefydlwyd dan y Ddeddf Ynni 2004 ac yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae pencadlys y CNPA yn Culham, Swydd Rhydychen. |
| **Beth rydym yn ei wneud** | Mae'r CNPA yn gyfrifol, yn unol â Deddf 2004, am gynnal CNC effeithiol ac effeithlon ac mae'n cyflogi ei swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Mae'r CNC yn darparu gallu ymateb arfog ar gyfer diwydiant niwclear sifil y Deyrnas Unedig. Mae CNC yn gweithredu o 11 uned wedi eu lleoli ar safleoedd niwclear trwyddedig ledled y Deyrnas Unedig ac yn darparu hebryngyddion arfog i symud deunyddiau niwclear o fewn y Deyrnas Unedig a thramor. |
| **Sut ydyn ni'n gwneud hyn** | Mae'r CNPA yn gweithio mewn partneriaeth â heddlu'r Swyddfa Gartref a Heddlu'r Alban ar bob safle. Cytunir ar y galluoedd ymateb arfog sydd eu hangen ym mhob safle gyda gweithredwyr y safle yn unol â'r Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau niwclear 2003 ac a ddilyswyd gan reoleiddiwr y Deyrnas Unedig, y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear. Mae swyddogion arfog yn cael eu lleoli i fodloni'r galluoedd hyn bob awr o bob dydd. Mae ein strategaeth patrôl wedi ei chynllunio i gyfyngu'r amgylchedd weithredu ar gyfer unrhyw un sydd â bwriad maleisus, i atal ac amharu ar weithredoedd posibl ac i sicrhau'r cyhoedd yn agos at safleoedd niwclear. |
| **Pam ydyn ni'n gwneud hyn** | Mae'r CNPA yn gweithio mewn partneriaeth gyda gweithredwyr safleoedd a chludwyr i ddiogelu'r diwydiant niwclear sifil rhag ymosodiad terfysgol. |

Mae ein dyfodol wedi ei gysylltu'n agos i ddyfodol ein cwsmeriaid. Efallai y bydd newidiadau i'r Ddeddf Ynni 2004 hefyd yn effeithio arnom. Wrth i'r broses datgomisiynu niwclear fynd yn ei flaen, rydym yn wynebu lleihad yn y nifer o safleoedd i'w plismona yn y tymor byr i ganolig; fodd bynnag, mae ymroddiad y llywodraeth i ganiatáu i gwmnïau ynni adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn creu potensial i ehangu ein cylch gwaith gweithredol yn y tymor hirach.



## Y Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae nodi, gwerthuso, rheoli a monitro'r risgiau mwyaf arwyddocaol mae'r CNPA yn wynebu a allai fygwth cyflawniad ein hamcanion strategol yn gyfrifoldeb i Fwrdd y CNPA.

Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd y mae'r CNPA yn wynebu fel a ganlyn:

### METHIANT I DRECHU YMOSODIAD TERFYSGOL

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Nid oes gan y CNC y gallu na'r medr i drechu ymosodiad terfysgol yn arwain at ddwyn deunydd niwclear neu ryddhad radiolegol ac anaf cholli bywyd dilynol i'r cyhoedd a cholledion ariannol i'r diwydiant niwclear. | Cynyddu'r nifer o swyddogion arfog wedi eu lleoli ar safleoedd niwclear trwyddedig |
| | Gwella gallu trwy dimau adferiad a reifflau arbenigol |
| | Gwell offer a gwella hyfforddiant a thactegau |
| | Cynyddu'r nifer o swyddogion sy'n gymwysedig fel comanderiaid drylliau gweithredol |
| | Gwella ymateb a lleoliad trwy fuddsoddiad mewn Technoleg Gwybodaeth |
| | Rhaglen drylwyr o ymarferion i brofi a gwella gorchymyn a rheolaeth yn barhaus |

### METHIANT RHAGLENNI TRAWSNEWID

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Mae'r CNC yn methu trawsnewid ei weithrediadau rheng flaen a darparu adnoddau a galluoedd priodol i'r rheng flaen neu gydymffurfio â disgwyliadau'r llywodraeth i drawsnewid ei swyddogaethau swyddfa gefn a chanolig i gefnogi'r rheng flaen weithredol. | Rheoli rhaglenni a phrosiectau gwerth uchel a risg-uchel yn defnyddio Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus a PRINCE2 |
| | Adrodd yn fisol i'r byrddau prosiect a rhaglen a'r Tîm Gweithredol |
| | Gweithredu mecanwaith sicrwydd i brosiectau a rhaglenni gwerth uchel a risg uchel (e.e. Adolygiadau Porth) |
| | Adolygiadau cyfnodol o adnoddau, ynghlwm i gynllunio a darogan chwarterol |

### COLLI HYDER RHANDDEILIAID

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Methiannau rheoleiddiol neu weithredol (e.e. colli trwydded drylliau, ymarferion yn methu) gyda'n rhaglenni trawsnewid yn arwain at golli enw da, cynyddu craffu gan y llywodraeth a lleihau buddsoddiad gan weithredoedd safleoedd sy'n lleihau ein heffeithlonrwydd gweithredol a gallu i drechu bygythiad terfysgol. | Datblygu strategaethau trin rhanddeiliaid |
| | Cyflawniad llwyddiannus rhaglenni trawsnewid gweithrediadau a thrawsnewid busnes |
| | Cydymffurfio â holl reoliadau gwariant y llywodraeth a mecanweithiau cymeradwyo |
| | Gweithredu ein strategaeth gyfathrebu a fforymau ymgysylltu â chyflogeion |


### METHIANT O RAN DYLETSWYDD GOFAL FEL CYFLOGWR

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Mae'r CNC yn methu yn ei ddyletswydd o ran cyfrifoldebau gofal, gan achosi marwolaeth neu anaf difrifol. | Gweithredu polisi iechyd, lles a ffitrwydd |
| | Cydymffurfiad â'r gyfarwyddeb oriau gwaith, system waith ddiogel yr HSE, a pholisi gyrru'r CNC |
| | Darpariaeth iechyd galwedigaethol digonol a phriodol |
| | Darparu cynllun iechyd a diogelwch blynyddol a rhaglen o archwiliadau iechyd a diogelwch |

### METHIANT I BARU GALWADAU STRATEGOL GYDAG ADNODDAU SYDD AR GAEL

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Camgymhariad rhwng galwadau strategol ac adnoddau sydd ar gael yn arwain at ddiffyg adnoddau gofynnol (pobl ac arian) ac adnoddau sydd ar gael (pobl ac arian). | Nawdd gan y tîm gweithredol o fentrau strategol gyda phrosiectau a rhaglenni wedi eu harwain gan berchnogion cyfrifol uwch lefel gweithredol |
| | Prosesu llywodraethu ar waith ar gyfer pob menter, rhaglen a phrosiect strategol mawr |
| | Cydbwyso llwyth gwaith trwy flaenoriaethu caeth i baru adnoddau prin i anghenion busnes |
| | Adolygu strwythurau rheoli a gweithredol i sicrhau eu bod yn dal yn briodol i gefnogi cyflawniad y blaenoriaethau strategol |
| | Cyllidebau realistig a chynlluniau cyflawni yn cael eu hadolygu'n chwarterol |
| | Mewnbwn eang i a herio strategaeth a chyllideb |

Ystadegau Allweddol



Dyfarnu 1 trwydded arfau llawn am

4

blynedd

Ystadegau Allweddol



8

system arfau gwahanol

**ANALLU I DRAWSNEWID I WEITHLU MODERN**

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| Nid yw'r CNC yn gallu trosi i weithlu modern ac mae'n lleihau ei effeithlonrwydd gweithredol ac/neu yn cynyddu costau. | Cyflawni ffrwd gwaith pensiynau'r rhaglen pobl |
| | Rhaglenni ffitrwydd, sicrhau cyllid ar gyfer taliadau galluoedd, recriwtio swyddogion newydd |
| | Adolygu priodoldeb 100% o'r llu AFO |

**TYNNU ALLAN O SAFLEOEDD WEDI DATGOMISIYNU**

| Ansicrwydd | Lliniaru |
|---|---|
| Ansicrwydd o ran dyddiadau tynnu swyddogion allan o safleoedd a ddatgomisiynwyd yn achosi gwrthdaro o ran cydbwyso ein rhwymedigaethau statudol i ddarparu ymateb arfog mewn safleoedd gyda model effeithiol o leoli ac ail-leoli swyddogion. | Adolygu amserlenni datgomisiynu yn rheolaidd gyda Chwmnïau Trwyddedu Safle (SLC), yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, ein tîm nawdd a'r rheoleiddiwr |
| | Adolygiad cyfoedion rheolaidd ar ddyddiadau tynnu allan arfaethedig |
| | Ail redeg ein model cynllunio gweithlu yn rheolaidd i asesu effaith newidiadau i ddyddiadau tynnu allan |
| | Cynllunio senario a nodi opsiynau i amsugno gostyngiadau yn niferoedd swyddogion |

## Adolygiad o Berfformiad

Mae'r CNPA wedi adrodd diffyg gweithredol o £668,000 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Mae hyn oherwydd yr wynebwyd y costau canlynol:

- Darparodd y CNPA £500,000 yn ychwanegol i setlo hawliadau yn dilyn dyfarniadau yn ei erbyn mewn tribiwnlys cyflogaeth. Mae'r CNPA yn ystyried nad yw'r costau hyn yn gostau gweithredol ac felly ni ellir eu codi ar ei gwsmeriaid. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y costau hyn yn cael eu talu gan y DECC trwy gymorth grant a'i gydnabod ar sail arian parod pan dderbynnir y taliad.

- Mae'r balans ar y diffyg gweithredu o £168,000 oherwydd dad-ddirwyn y gostyngiad ar daliadau yn y dyfodol am gostau gadael cynnar a newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer costau gadael cynnar oherwydd newidiadau mewn cyfraddau a ragwelwyd ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n ategu taliadau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer cyflogeion sydd wedi derbyn ymddeoliad gwirfoddol gan safleoedd nad yw CNC bellach yn eu plismona.

## Costau Gweithredu

Disgwylir i'r CNPA adfer ei gostau gweithredu yn llawn bob blwyddyn. Incwm o £93,367,000 (2013/14: £87,750,000) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 yn cynrychioli ailgodi costau rhedeg i SLCs o £92,633,000 (2013/14: £87,614,000) ac incwm amrywiol o £734,000 (2013/14: £136,000). Roedd incwm amrywiol yn cynnwys ailgodi costau secondio, darparu gwasanaethau plismona i achosion nad ydynt yn SLCs a chefnogaeth cyfathrebu ar gyfer cludiant heb hebrwng o ddeunyddiau niwclear ledled y Deyrnas Unedig.

Roedd gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 yn £94,035,000 (2013/14: £88,948,000). Roedd y cynnydd mewn gwariant yn bennaf oherwydd cynnydd mewn costau staff o £3,558,000 i £71,300,000. Roedd y cynnydd o ganlyniad i recriwtio nifer cynyddol o swyddogion wedi eu lleoli i safleoedd niwclear trwyddedig a staff a gyflogir mewn adrannau corfforaethol. Cynyddodd gwariant arall o £1,529,000 i £22,735,000. Roedd y cynnydd yn cynnwys costau teithio cynyddol a gwasanaethau proffesiynol.



Enillwyd llog derbyniadwy o £16,000 (2013/14: £16,000) ar falans arian parod a gedwir gan y CNPA. Yn cyd-fynd â hyn roedd llog o'r un swm yn daladwy, gan nad yw'r CNPA yn cael cadw unrhyw log a enillir, ac mae'n rhaid naill ai ei dalu yn ôl i'r DECC i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol, neu ei osod yn erbyn ceisiadau am gyllid cyfalaf gan DECC.

## Sefyllfa Ariannol

Roedd gwerth cario eiddo, offer a chyfarpar ar 31 Mawrth 2015 yn £6,348,000 (31 Mawrth 2014: £6,713,000). Roedd caffaeliadau asedau yn cyfateb i £1,838,000 ac yn cynnwys £258,000 ar gyfer 10 o gerbydau newydd, £504,000 ar offer a pheiriannau, cyfarpar gweithredol a hyfforddiant drylliau a £50,000 ar offer TG. Mae taliadau ar gyfrifon ac asedau dan adeiladwaith o £986,000 a dodrefn a gosodiadau o £40,000 yn gyfrifol am falans y pryniadau asedau. Codwyd dibrisiant o £1,723,000 i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Roedd gwerth cario asedau anniriaethol yn £624,000 ar 31 Mawrth 2015 (31 Mawrth 2014: £334,000). Roedd atodiadau asedau anniriaethol o £98,000 yn cynnwys prynu trwyddedau meddalwedd a chaledwedd sy'n ganolog i raglenni TG. Codwyd amorteiddiad o £277,000 i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Roedd masnach a derbynion eraill oedd yn daladwy wedi un flwyddyn yn cyfateb i £739,000. Mae'r balansau hyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus gan gynllun pensiwn y CNPA ar gyfer staff a ymddeolodd yn gynnar a benthyciadau tai i staff. Mae'r CNPA yn talu cyfandaliadau i staff sy'n ymddeol yn gynnar. Ad-delir y symiau hyn i'r CNPA gan y cynllun pensiwn pan fydd y cyflogeion yn cyrraedd oed ymddeol arferol. Roedd y stocrestrau ar 31 Mawrth 2015 yn cyfateb i £1,512,000 (31 Mawrth 2014: £1,519,000).

Gostyngodd y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau i £2,711,000 (31 Mawrth 2014: £2,793,000). Cynyddwyd darpariaethau o £934,000 i setlo hawliadau yn dilyn dyfarniadau yn erbyn y CNPA mewn dau dribiwnlys cyflogaeth. Gwnaethpwyd taliadau o £693,000 yn erbyn darpariaethau presennol a rhyddhawyd £391,000 i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer darpariaethau na ddefnyddiwyd. Cynyddwyd y ddarpariaeth gyda £68,000 ymhellach oherwydd dad-ddirwyn y gostyngiad ar gostau gadael cynnal o 1 flwyddyn.

Gostyngodd ecwiti trethdalwyr o 2% ar 31 Mawrth 2015 i £14,047,000 (31 Mawrth 2014: £14,334,000). Roedd hyn yn cynnwys symudiad incwm a gwariant o £677,000 yn llai cynnydd net mewn cyllid o £390,000.



## Llifoedd Arian

Roedd arian a gynhyrchwyd o weithrediadau yn 2014/15 yn all-lif o £3,980,000 (2013/14: all-lif o £1,265,000). Roedd llog a dderbyniwyd ar falans arian parod CNPA yn cyfateb i £16,000. Gwnaethpwyd taliadau o £2,133,000 i brynu eiddo, offer a chyfarpar a £96,000 i gaffael asedau anniriaethol. Roedd y mewnlif arian parod net o gyllido yn £1,366,000, oedd yn cynnwys derbynion grant cyfalaf o £991,000, grantiau o adran rhiant y CNPA, DECC, o £277,000 a chyfraniadau cyllid eraill o £98,000. Arweiniodd hyn at leihad cyffredinol mewn arian parod mewn llaw yn 2014/15 o £4,827,000 (2013/14: cynnydd o £1,076,000).

Mae'r CNPA yn cadw digon o falans arian parod wrth gefn i sicrhau bod cronfeydd ar gael i wneud taliadau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae wedi cytuno i delerau credyd o 15 niwrnod gyda SLCs i wella a chynnal balansau arian parod uwch i sicrhau ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau ariannol. Mae'r CNPA yn bancio gyda'r Royal Bank of Scotland Plc (RBS). Mae ganddo gyfleuster gorddrafft o £1miliwn yn ystod y flwyddyn i liniaru'r risg nad oedd, o ganlyniad i amseriad derbynion a thaliadau, yn gallu bodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn daladwy. Ni ddefnyddiwyd y cyfleuster gorddrafft yn ystod y cyfnod adrodd. Trosglwyddwyd cronfeydd wrth gefn yn ddyddiol i gyfrif sy'n ennill llog. Fe delir y llog hwn yn fisol i'r CNPA ac mae'n cael ei ystyried i fod yn dderbynneb gan ffynhonnell Trysorlys a'i gredydu i Gyllido ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol y CNPA. Caiff y CNPA naill ai ddefnyddio llog sy'n daladwy i ariannu gwariant atodol, gan arwain at leihad cynhwysfawr mewn cymorth grant, neu ei ildio i'r Gronfa Gyfunol trwy'r DECC.

Darparodd y cyn Adran Masnach a Diwydiant (DTI) gyfalaf gweithredol o £6miliwn ar gychwyn, a gymudwyd i gymorth grant ac sy'n llunio rhan o Ecwiti'r Trethdalwr. Defnyddir hyn i ariannu gwahaniaethau amser rhwng derbynion gan SLCs a thaliadau i gredydwyr.

## Adnoddau Gofynnol yn 2015/16

Cyflwynodd y Tîm Gweithredol gyllideb gwariant refeniw o £111miliwn a chyllideb cyfalaf o £4.3miliwn. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 13% a 30% dros ein cyllidebau yn 2014/15. Yr hyn sy'n ysgogi'r cynnydd yn ein costau cyllidebu yw ein rhaglen i gynyddu galluoedd a medr. Ers 2010/11, mae'r CNC wedi cynyddu ei fedr flwyddyn ar flwyddyn i gau'r bwlch rhwng ei niferoedd targed o swyddogion a staff ac i liniaru'r risg o ymosodiad terfysgol llwyddiannus trwy gynyddu'r nifer o swyddogion sydd wedi eu lleoli i'r rheng flaen a thrwy gynyddu maint y swyddogaethau hyfforddiant a phencadlys i gefnogi eu lleoliad parhaus.

Nid yw Bwrdd y CNPA wedi cymeradwyo ei gyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2015/16. I gynnal parhad busnes, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cyllideb dros dro yn seiliedig ar broffil gwariant chwarter olaf 2014/15 a bod y CNPA yn bodloni ei holl rwymedigaethau cytundebol ac ymroddedig hyd at 25 Mawrth 2015. Mae'r holl wariant newydd ar fentrau 2015/16 wedi ei atal nes y bydd cyllideb wedi ei chytuno gan yr holl SLCs a'r NDA a'i chymeradwyo gan Fwrdd y CNPA.

Mae Bwrdd y CNPA yn parhau i fod yn hyderus y bydd yn sicrhau cytundeb gan SLCs a'r NDA i ariannu cyllideb 2015/16 ac felly mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Gofynion Ariannu yn y Dyfodol

Mae tua 75% o wariant blynyddol y CNC ar gostau staff. Mae newidiadau i bensiynau sector cyhoeddus yn debygol o arwain at daliadau uwch i bensiynwyr a diddymu'r gostyngiad yswiriant cenedlaethol ar gyfer cyflogeion y sector cyhoeddus sy'n contractio allan o Gynllun Pensiwn Cysylltiedig i Enillion y Wladwriaeth neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth gan arwain at gostau yswiriant gwladol uwch i gyflogwyr. Mae'r ddau ddigwyddiad yn debygol o gynyddu costau staff y CNC yn y dyfodol.

## Proses Adolygu Cyllideb

Adolygir adnoddau ariannol y CNPA o leiaf pob chwarter gan y Tîm Gweithredol a Bwrdd y CNPA. Mae'r adolygiadau chwarterol yn darparu cyfle i'r Bwrdd i adolygu'r gyllideb i sicrhau bod yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r CNC yn gyson â chyflawniad ei amcanion strategol.

## Dosbarthiad Rhyw ac Amrywiaeth Rhyw


Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd Bwrdd y CNPA yn cynnwys 11 o aelodau gweithredol ac anweithredol gwrywaidd ac 1 aelod anweithredol benywaidd. O'r 8 pennaeth adran a rolau comanderiaid adrannol, roedd 6 wedi eu llenwi gan ddynion a 2 gan fenywod. Roedd gan y CNPA 1,253 cyflogai gwrywaidd (2013/14: 1,187) a 300 cyflogai benywaidd (2013/14: 291) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Cyflogeion

Sefydlir cyfartaledd y nifer o gyflogeion a manylion costau cyflogaeth yn nodyn 4 i'r datganiadau ariannol.

**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl
12 Mehefin 2015

**Ystadegau Allweddol**




Dros

**200**

o staff yr heddlu yn cefnogi'r rheng flaen

Ystadegau Allweddol



Dros

50

o swyddogion yn ein Grŵp Hebrwng Strategol

# Adrodd ar Gynaliadwyedd

Mae'r CNPA wedi derbyn eithriadau o'r targedau lleihau Ymroddiadau Gwneud y Llywodraeth yn fwy Gwyrdd ar gyfer cyflawni gweithrediadau a chaffael cynaliadwy.

Cyflawnir y rhan fwyaf o weithrediadau plismona'r CNPA ar safleoedd niwclear trwyddedig. Darperir llety a gwasanaethau i'r CNPA yn y safleoedd hyn. Y cwmni trwydded safle sy'n gyfrifol am y llety a gwasanaethau hyn. Nid yw effaith amgylchedd y CNPA ar y safleoedd yn cael ei fesur ac mae tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

Mae pencadlys ac ysgol hyfforddi'r CNPA wedi eu lleoli yng Nghanolfan Wyddoniaeth Culham. Mae'n rhentu gofod swyddfa gan Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig (UKAEA), sy'n gorff anadrannol (NDPB) gweithredol o'r Adran Busnes Arloesi a Sgiliau (BIS). Nid yw'r UKAEA yn mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a defnydd o adnoddau cyfyngedig unigol cwmpas 2 ei denantiaid. Dosrannir defnydd a chost i bob tenant ar sail y gofod llawr mae'n ei feddiannu yn hytrach na'r defnydd. Ni allwn gadarnhau a yw unrhyw gynnydd neu leihad mewn defnydd o ganlyniad i'r CNPA yn hytrach nag wedi eu priodoli i sefydliadau eraill sydd wedi eu lleoli yno.

Nid yw'r CNPA yn cael effaith arwyddocaol ar fioamrywiaeth ac nid yw'n ofynnol i baratoi cynllun gweithredu bioamrywiaeth gan fod ei holl ystadau mewn swyddfeydd.

Mae'r tablau a sylwadau canlynol yn rhoi manylion allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwaredu dŵr, defnydd o ddŵr, trydan a nwy'r CNPA yn ei bencadlys yn Swydd Rhydychen ac ysgol hyfforddi hyd at 31 Mawrth 2015.

## Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($CO_2$e mewn tunelli) | Allyriadau cwmpas 1 (Fflyd cerbydau) | 605.50 | 615.00 | 639.84 | 531.98 |
| | Allyriadau cwmpas 2 (Ynni) | 329.72 | 430.06 | 389.96 | 336.77 |
| | Allyriadau cwmpas 3 (Teithio ar fusnes swyddogol) | 851.74 | 806.34 | 1,231.53 | 1,296.29 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Gwariant gros Ymroddiad Lleihau Carbon | Nid yw'r CNPA yn cymryd rhan yn y cynllun hwn | | | |
| | Gwariant ar osodiadau yn erbyn a achredwyd | Nid yw'r CNPA yn cymryd rhan yn y cynllun hwn | | | |
| | Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes swyddogol (ac eithrio costau llety a chynhaliaeth) | 2,191 | 2,314 | 2,250 | 1,974 |



## Effaith y gellir eu rheoli

Mae allyriadau cwmpas 1 y CNPA yn cynnwys milltiredd ac allyriadau $CO_2$ dilynol o'n fflyd cerbydau gweithredol sy'n gysylltiedig i'n strategaeth patrôl ac wedi eu hysgogi gan angen gweithredol, yn hytrach nag effaith amgylcheddol. Mae allyriadau cwmpas 3 yn cynnwys unrhyw filltiredd busnes yn ymwneud â cherbydau personol a ddefnyddir i ddibenion gwaith yn ogystal â cheir llogi, teithiau hedfan domestig a defnydd o reilffyrdd. Ysgogydd allweddol ar gyfer milltiredd busnes yw swyddogion yn mynychu cyrsiau hyfforddi. Mae'r cynnydd mewn allyriadau cwmpas 3 yn gysylltiedig i gynnydd sefydlog yn y nifer o swyddogion yr heddlu a chynnydd yn eu gofynion hyfforddiant.

Fodd bynnag, rydym yn awyddus i leihau ein heffaith amgylcheddol trwy leihau cerbydau allyriadau ble bynnag fo'n bosibl. Rydym yn ceisio gweithredu'r cerbydau addas i'r diben mwyaf effeithiol ar draws ein fflyd weithredol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

## Effeithiau Dan Ddylanwad

Mae'r CNPA yn annog ei gyflogeion, trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyfnodol, i leihau teithio a manteisio ar opsiynau megis fideo-gynadledda a thelegynadledda. Anogir cyflogeion hefyd i ddefnyddio moddau cludiant caredig i'r amgylchedd ble fo'n ymarferol.

## Gwastraff

| Gwastraff | | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | | 4.86 | 2.35 | 2.80 | 2.83 |
| | Cyfanswm gwastraff peryglus | | 0.07 | 0.07 | - | 0.09 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | - | - | - | - |
| | | Ailddefnyddio/ailgylchu | 4.79 | 2.28 | 2.80 | 2.70 |
| | | Llosgwyd/ynni a ailddefnyddiwyd | | | | Ddim ar gael |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm cost gwaredu | | 3.1 | 5.4 | 6.4 | 4.1 |
| | Gwastraff peryglus – cyfanswm costau gwaredu | | | | | Ni adroddwyd. Wedi ei gynnwys yn y cyfanswm cost gwaredu |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus – cyfanswm costau gwaredu | Tirlenwi | | | | Dim |
| | | Ailddefnyddio/ailgylchu | | | | Ni adroddwyd. Wedi ei gynnwys yn y cyfanswm cost gwaredu |
| | | Llosgwyd/ynni a ailddefnyddiwyd | | | | Ddim ar gael |



## Effaith y gellir eu rheoli

Mae'r CNPA yn ailgylchu gwastraff yn defnyddio'r cynllun ailgylchu UKAEA. Mae hyn yn ailgylchu papur swyddfa, papurau newydd, cylchgronau, eitemau cardfwrdd bach, caniau bwyd a diod, poteli plastig, cwpanau plastig, poteli / jariau gwydr domestig a chwpanau coffi cludo.

Mae'r CNPA yn ailgylchu cyfarpar cyfrifiadurol, dodrefn, cyfarpar swyddfa, eitemau trydanol, batris a chetris print. Mae'r holl eitemau yn cael eu hailgylchu ac yn cydymffurfio â chyfarwyddebau gwastraff ac amgylcheddol yr UE ac ni anfonir unrhyw beth i dirlenwi. Mae'r CNPA hefyd yn ailgylchu 100% o'i getris ffrwydrol gwag. Gwaredir ar ddillad a chyfarpar trwy lwybr gwaredu diogel a'i hailgylchu ble fo'n bosibl.

## Effeithiau Dan Ddylanwad

Ar hyn o bryd nid oes gan y CNPA unrhyw ddylanwadau anuniongyrchol ar draul gwastraff.

# Dŵr

| Defnydd o adnoddau cyfyngedig | | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($m^3$) | Defnydd o ddŵr | Cyflenwyd | 2,023 | 1,705 | 1,748 | 1,311 |
| | | Echdynnwyd | - | - | - | - |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | | 2 | 1.9 | 1.7 | 1.4 |

## Effeithiau Dŵr y Gellir eu Rheoli

Mae ein prif effeithiau uniongyrchol ar gyfer defnydd dŵr yn ardaloedd swyddfa a hyfforddiant. Mae hyn yn ymwneud â chyfleusterau toiledau, cawodydd a chegin sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw defnydd dŵr y CNPA wedi ei fesur ac mae cwmpas i leihau ei ddefnydd wedi ei gyfyngu i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyflogeion.

## Effeithiau Dan Ddylanwad

Ar hyn o bryd nid oes gan y CNPA unrhyw ddylanwadau anuniongyrchol ar ddefnydd dŵr.

## Nwy a Thrydan

| Defnydd o adnoddau cyfyngedig | | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (kWh) | Ynni a ddefnyddiwyd | Trydan – anadnewyddadwy | 484,140 | 617,476 | 499,389 | 420,193 |
| | | Trydan – adnewyddadwy | - | - | - | - |
| | | Nwy | 412,493 | 578,013 | 680,645 | 633,855 |
| | | LPG | - | - | - | - |
| | | Arall | - | - | - | - |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm gwariant ynni | | 69 | 86 | 75 | 69 |


## Effaith y gellir eu rheoli

Mae ein prif effeithiau uniongyrchol ar gyfer defnydd ynni yn ardaloedd swyddfa a hyfforddiant. Nid yw defnydd ynni'r CNPA wedi ei fesur ac, fel defnydd dŵr, mae cwmpas i leihau ei ddefnydd wedi ei gyfyngu i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyflogeion.

## Effeithiau Dan Ddylanwad

Ar hyn o bryd nid oes gan y CNPA unrhyw ddylanwadau anuniongyrchol ar draul trydan a nwy.

Ystadegau Allweddol



Dros

40

o randdeiliaid

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Aelodau Bwrdd y CNPA a Buddiannau Aelodau'r Bwrdd

I ddibenion yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn, dehonglir y term 'cyfarwyddwyr' i olygu aelodau gweithredol ac anweithredol o Fwrdd y CNPA ac sydd â'r awdurdod neu gyfrifoldeb i gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau'r CNPA yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod y rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r CNPA yn gyffredinol yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiadau neu adrannau unigol yn y sefydliad.

## Aelodau'r Bwrdd a wasanaethodd yn ystod y cyfnod oedd:

| | |
|---|---|
| Is-gadfridog (Ymddeoledig) Syr Philip Trousdell KBE CB | Cadeirydd ac Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Penodiadau Uwch |
| Mike Griffiths CBE | Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl |
| Ian Abbott OBE | Aelod Diwydiant ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu |
| Stephen Barrett | Aelod Annibynnol ac aelod o'r Pwyllgor Penodiadau Uwch |
| George Beveridge | Cynrychiolydd Diwydiant ac aelod o'r Pwyllgor Penodiadau Uwch |
| Simon Chesterman QPM | Cyfarwyddwr Galluoedd a Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Alistair Cook | Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes (hyd 6 Ionawr 2015) |
| Alan Cooper | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol |
| Paul Kernaghan CBE QPM | Aelod Annibynnol a Chynghorol yr Heddlu |
| Kenneth Kilpatrick | Cyfarwyddwr Busnes (o 29 Medi 2014) |
| Gwen Parry-Jones OBE | Aelod Diwydiant ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu (o 1 Mehefin 2014) |
| Justin Rees | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (i 16 Awst 2014) |
| Mark Rouse | Aelod Diwydiant |
| Matt Sykes | Aelod Diwydiant ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu (hyd 28 Mai 2014) |
| Rob Wright | Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu |

Rhoddir amodau penodiadau a chontractau gwasanaeth aelodau'r bwrdd ar dudalen 28 yr Adroddiad Tâl. Nid oes gan unrhyw un o aelodau'r bwrdd ddiddordeb yn, nac ar ddiwedd y flwyddyn unrhyw gontract o arwyddocâd parthed busnes y CNPA.



## Tîm Gweithredol

## Roedd y Tîm Gweithredol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Mike Griffiths CBE | Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl |
| Simon Chesterman QPM | Cyfarwyddwr Galluoedd a Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Alistair Cook | Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes (hyd 6 Ionawr 2015) |
| Alan Cooper | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol |
| Kenneth Kilpatrick | Cyfarwyddwr Busnes (o 29 Medi 2014) |
| Justin Rees | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (i 16 Awst 2014) |

## Cyflogeion

Mae'r CNPA yn darparu cyfle cyfartal o ran cyflogaeth; hyfforddiant; datblygu gyrfa; a dyrchafiad beth bynnag yw'r rhyw; oed; hil; crefydd; tarddiad ethnig neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r CNPA yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr gydag anableddau, ac yn ystyried ceisiadau ar sail fesul achos. Rhaid i ymgeiswyr swyddogion yr Heddlu allu cyflawni'r gweithgareddau arferol sy'n ofynnol ar gyfer swyddog yr heddlu, a bydd y CNPA yn ystyried a ellir gwneud addasiadau rhesymol yn y gweithle i ddarparu ar gyfer anableddau ymgeiswyr. Bydd y CNPA yn gwneud trefniadau priodol i ddarparu addasiadau rhesymol os bydd cyflogeion yn dod yn anabl yn ystod ei gyflogaeth.

Mae cyfathrebu o ddydd i ddydd gyda staff yn digwydd trwy gyfrwng electronig a sesiynau tîm. Mae cyflogeion yn cael eu hysbysu o gynnydd y CNC trwy negeseuon e-bost; posteri mewnol; sesiynau hysbysu; a chyfres o gylchlythyron. Cyhoeddir diweddariadau ffurfiol hefyd ar ffurf Archebion Cwnstabliaeth a hysbysiadau gweithredol a diogelwch. Mae'r Prif Gwnstabl yn darparu cyfarwyddyd rheolaidd i swyddogion a staff yn y pencadlys. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi a dosbarthu i'r holl gyflogeion yn holl leoliadau'r CNC. Mae grwpiau ymgysylltu yn y pencadlys ac adrannau gweithredol yn darparu fforymau ar gyfer ymgynghori gydag a chael adborth gan gyflogeion, gan ddarparu'r adborth hwn yn uniongyrchol i'r Prif Gwnstabl.

Bwriedir buddsoddi ymhellach mewn cyfathrebu â chyflogeion gyda lansiad mewnrwyd newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i gyfathrebu gyda'n cyflogeion i gyd ym mha bynnag ffordd y mae'n ystyried i fod fwyaf effeithiol.

**Ystadegau Allweddol**



Dros

# 7,000

o geisiadau AFO i ymuno â ni'r llynedd

## Absenoldeb salwch

Mae'r CNPA wedi ymrwymo i iechyd corfforol a meddyliol a lles pob un o'i swyddogion a staff ac mae ganddo bolisi rheoli salwch cynhwysfawr. Mae ei ddarpariaeth iechyd galwedigaethol yn ymestyn ar draws ei holl leoliadau. Mae cyfraddau absenoldeb salwch swyddogion yr heddlu wedi cynyddu eleni i 13 diwrnod y swyddog ac yn uwch na'u targed o 10.5 diwrnod. Mae cyfraddau salwch swyddogion yr heddlu wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf gan ostwng i dan 6 niwrnod ar gyfer pob aelod o staff yr heddlu ac yn is na'i darged o 7.5 niwrnod.

**Mae cyfraddau absenoldeb salwch swyddogion yr heddlu wedi cynyddu ac yn dal yn uwch na'r lefelau targed**
**Cyfartaledd dyddiau**




**Mae cyfraddau absenoldeb salwch staff yr heddlu wedi parhau i wella ac yn dal yn is na'r lefelau targed**
**Cyfartaledd dyddiau**




Mae'r camau canlynol wedi eu gweithredu neu ar fin cael eu gweithredu yn 2015/16 i ddelio â'r tuedd cynyddol yn absenoldeb salwch swyddogion yr heddlu.

- Cynnydd mewn ymyrraeth gan gynghorwyr iechyd a lles i helpu dychweliad i waith, yn arbennig o ran cefnogi anafiadau cyhyrysgerbydol, a chyflymu'r cyfnod adferol;

- Cynyddu cyllid i helpu adferiad, fel ffisiotherapi a chynghori;
- Grŵp iechyd a lles i ddechrau darparu trosolwg corfforaethol o gyfraddau absenoldeb salwch ac i ddadansoddi tueddiadau ar draws y sefydliad; a
- Chynyddu darpariaeth fewnol o wasanaethau iechyd galwedigaethol arbenigol.



## Iechyd a Diogelwch

Mae ein gweithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Yn ystod 2014/15, adroddwyd am 11 o ddigwyddiadau dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) gyda'r rhan fwyaf wedi eu hadrodd yn y categori colli dros 7 niwrnod (2013/14: 14). Mae hyn yn parhau gyda'r tuedd o leihad yn y nifer o ddigwyddiadau adroddadwy o gymharu â'r tair blynedd adrodd diwethaf. Mae'r holl swyddogion yr heddlu'r CNC a nifer fechan o staff yr heddlu wedi eu dynodi fel 'gweithwyr sy'n cael eu monitro' ac yn cael eu profi am amlygiad i ymbelydredd. Ni dderbyniodd dros 80% o'n gweithwyr oedd wedi eu monitro dos mesuradwy yn ystod 2014/15. Roedd gan y gweithwyr eraill gyfartaledd y dos ymbelydredd o 0.01 millisievert (mSv), oedd yn is na'r llynedd.

## Adrodd ar Doriadau Diogelwch a Digwyddiadau Diogelwch

Ni chafwyd unrhyw achosion o doriadau diogelwch yn ymwneud â data personol oedd yn adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2014/15 (2013/14: 1).

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r nifer o doriadau diogelwch a digwyddiadau diogelwch ers 2011/12.

| Natur y digwyddiad | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| Colli asedau; cyfarpar trydanol; a dyfeisiau neu ddogfennau papur o eiddo CNC wedi diogelu | - | 1 | - | - |
| Colli neu ladrad o gyfarpar trydanol, dyfeisiau neu ddogfennau papur wedi ei farcio'n amddiffynnol o'r tu allan i eiddo CNC wedi diogelu | 4 | - | 2 | 1 |
| Gwaredu anniogel o gyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad yw wedi ei ddiogelu'n ddigonol | - | - | - | - |
| Datgeliad heb awdurdod trwy drosglwyddiad anniogel o ddogfennau wedi eu marcio'n amddiffynnol | 3 | 4 | 2 | 5 |
| Peryglu data personol | - | - | 1 | - |
| Troseddau / digwyddiadau 'lefel isel' eraill | 27 | 20 | 32 | 7 |
| **Cyfanswm** | **34** | **25** | **37** | **13** |

Adroddwyd ar yr holl doriadau diogelwch yn ymwneud ag asedau neu Wybodaeth Niwclear Sensitif Dosbarthiad Diogelwch 'Sensitif Swyddogol' y Llywodraeth fel 'Cyfyngedig' ac uwch i'r corff rheoleiddio priodol: DECC, ONR (CNS), Tîm Rheoli Risg Gwybodaeth Genedlaethol yr Heddlu a'r Grŵp Diogelwch Cyfathrebu Electronig, cangen diogelwch gwybodaeth Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth.



## Cyfarwyddyd Cyfrifon

Darparwyd Cyfarwyddyd Cyfrifon gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, ac yn unol ag Atodlen 10 y Ddeddf Ynni 2004.

## Rheoli Risg Ariannol

Datgelir gwybodaeth ar amcanion a pholisi rheoli risg ariannol y CNPA a'i amlygiad i risg credyd, risg dirwyn i ben a risg marchnad yn nodyn 9 i'r datganiadau ariannol.

## Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Datgelir digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd yn nodyn 22 i'r datganiadau ariannol.

## Talu Cyflenwyr

Polisi'r CNPA yw talu ei gyflenwyr o fewn amodau talu a gontractiwyd neu, heb amodau a gytunwyd yn benodol, o fewn 30 niwrnod i dderbyn anfoneb ddilys. Yn 2014/15, talodd y CNPA 97% o'i anfonebau mewn pryd (2013/14: 96%). Mae'r CNPA wedi ceisio cydymffurfio ag ymroddiad y llywodraeth ganolog i dalu cyflenwyr o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb ddilys ble bynnag fo'n bosibl. Ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2015, talodd y CNPA 87% o'i anfonebau o fewn 10 niwrnod gwaith (2013/14: 87%).

## Trefniadau Pensiwn

Datgelir rhagor o wybodaeth ar bensiynau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ac yn nodiadau 1.8 a 5 i'r datganiadau ariannol.

## Archwilydd

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Cost yr archwiliad statudol oedd £42,000 (2013/14: £42,000). Ni dderbyniodd yr archwilwyr allanol unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn ar gyfer darpariaeth o wasanaethau nad ydynt yn archwiliad.

## Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilydd

Mae aelodau'r Bwrdd oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn yn cadarnhau, cyn belled ag yr oedd pob un yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y CNPA yn ymwybodol ohono; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd y camau oedd angen i ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilydd y CNPA yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl
12 Mehefin 2015

# Adroddiad Cydnabyddiaeth

Mae Bwrdd yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA) yn gweithredu o fewn yr egwyddorion a sefydlwyd yn y Ddogfen Fframwaith rhwng y CNPA a'r DECC parthed polisïau ac ymarfer cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd sy'n Gynrychiolwyr Diwydiant, Aelodau Bwrdd Annibynnol a'r Tîm Gweithredol fel y cymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyflwynir y prif drefniadau gweithredu isod.

## Gweithdrefnau i Setlo Cydnabyddiaeth

Pennir cydnabyddiaeth ar gyfer Cadeirydd y CNPA ac Aelodau Bwrdd Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM yn unol â Deddf Ynni 2004. Sefydlir tâl y Tîm Gweithredol gan Fwrdd y CNPA, o fewn amodau'r Ddogfen Fframwaith, trwy ei Bwyllgor Penodiadau Uwch fel y disgrifiwyd isod. Ni dderbyniodd Aelodau Bwrdd sy'n Gynrychiolwyr Diwydiant unrhyw gydnabyddiaeth.

### Aelodaeth o'r Pwyllgor Penodiadau Uwch:

Syr Philip Trousdell (Cadeirydd)
George Beveridge
Stephen Barrett

## Datganiad o Bolisi Cydnabyddiaeth

Y cydrannau unigol a'r trefniadau ar gyfer pecynnau cydnabyddiaeth yw:

### Ffioedd

Mae gan Aelodau Bwrdd Annibynnol hawl i ffioedd a bennir gan y DECC ac maent yn derbyn ad-daliad am gostau rhesymol yn unol â pholisi'r CNPA.

### Cyflogau a Lwfansau

Mae'r Tîm Gweithredol yn derbyn cyflog a adolygir yn flynyddol. Cynhwysir lwfansau eraill i'r fath raddau ag y maent yn amodol i drethiant yn y Deyrnas Unedig.

### Buddion mewn Da

Mae gan Gadeirydd y CNPA ac aelodau o'r Tîm Gweithredol hawl i fudd mewn da o gar wedi ei gynnal yn llawn.

### Pensiynau

Mae'r Tîm Gweithredol yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Cyfunol (CPS) yr UKAEA sy'n talu pensiwn blynyddol yn seiliedig ar enillion terfynol pensiynadwy ynghyd â chyfandaliad o dair gwaith y pensiwn ar oed ymddeol arferol. Mae buddion hefyd yn daladwy wedi marwolaeth neu ymddeoliad oherwydd afiechyd. Nid yw Aelodau Bwrdd Annibynnol yn aelodau o'r CPS nac unrhyw gynllun arall sy'n gysylltiedig â'r CNPA tra bod Aelodau Bwrdd Diwydiant yn gwneud eu trefniadau pensiwn eu hunain trwy eu cyflogwyr.

**Ystadegau Allweddol**



Dros
**125,000**
o drawiadau i'n tudalennau gwe newydd
www.gov.uk/cnc
www.gov.uk/cnpa

# Amodau Penodiad a Chontractau Gwasanaeth

Mae'r dilynol yn grynodeb o amodau penodiad / contractau gwasanaeth ar gyfer Bwrdd y CNPA.

| Enw | Dyddiad gwasanaeth parhaus | Tymor heb ddod i ben ar 31 Mawrth 2015 | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|
| Ian Abbott<br>Aelod Diwydiant<br>(Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) | 13 Gorffennaf 2012 | 4 mis | Heb ei ddatgan |
| Stephen Barrett<br>Aelod Annibynnol | 1 Ebrill 2010 | 1 flwyddyn | 3 mis |
| George Beveridge<br>Aelod Diwydiant (Sellafield Ltd) | 3 Awst 2009 | 1 flwyddyn | 3 mis |
| Simon Chesterman[1]<br>Dirprwy Brif Gwnstabl | 6 Ionawr 2014 | 3 blynedd, 9 mis | 6 mis |
| Alistair Cook<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes | 7 Ionawr 2013 | - | Contract wedi dod i ben 6 Ionawr 2015 |
| Alan Cooper[2]<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 7 Ionawr 2008 | 3 mis | 6 mis |
| Mike Griffiths<br>Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl | 1 Hydref 2012 | 2 flynedd, 6 mis | 6 mis |
| Paul Kernaghan<br>Aelod Annibynnol a Chynghori ar Blismona | 5 Chwefror 2013 | 10 mis | 3 mis |
| Kenneth Kilpatrick[3]<br>Cyfarwyddwr Busnes | 29 Medi 2014 | 4 blynedd, 6 mis | 6 mis |
| Gwen Parry-Jones[4]<br>Aelod Diwydiant<br>(EDF Energy Nuclear Generation Ltd) | 1 Mehefin 2014 | 2 flynedd, 2 fis | Heb ei ddatgan |
| Justin Rees<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 17 Awst 2009 | - | Contract wedi dod i ben 16 Awst 2014 |
| Mark Rouse<br>Aelod Diwydiant (Dounreay Site Restoration Ltd) | 1 Ebrill 2013 | 1 flwyddyn | Heb ei ddatgan |
| Matt Sykes[4]<br>Aelod Diwydiant<br>(EDF Energy Nuclear Generation Ltd) | 1 Ebrill 2007 | - | Diwedd penodiad 28 Mai 2014 |
| Syr Philip Trousdell<br>Cadeirydd ac Aelod Annibynnol | 23 Mai 2011 | 6 mis | 3 mis |
| Robert Wright<br>Aelod Annibynnol | 4 Ionawr 2010 | 6 mis | 3 mis |

Nodiadau

1 Cafodd Simon Chesterman ei secondio o Heddlu Gorllewin Mercia. Daeth secondiad Mr Chesterman i ben ar 15 Ebrill 2014 ac fe ymunodd â'r CNPA ar gontract tymor sefydlog o 16 Ebrill 2014

2 Gadawodd Alan Cooper y CNPA ar 6 Ebrill 2015

3 Derbyniodd Kenneth Kilpatrick benodiad fel Cyfarwyddwr Busnes ar 29 Medi 2014

4 Daeth cytundeb Matt Sykes i ben ar 28 Mai 2014 ac fe'i holynwyd gan Gwen Parry-Jones o 1 Mehefin 2014

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer iawndal am derfyniad cynnal ac atebolrwydd y CNPA o ganlyniad i derfynu cynnar wedi eu datgan yn yr amodau penodiad / contractau gwasanaeth. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyfrifoldeb dros benodiad a diswyddo'r Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd sy'n Gynrychiolwyr Diwydiant ac Annibynnol ac am gymeradwyo amodau a thelerau eu penodiad yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Ynni 2004, Atodlen 10.

*Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol i archwiliad.*

# Cydnabyddiaeth

Roedd cydnabyddiaeth yn daladwy i aelodau'r Bwrdd y CNPA yn 2014/15 fel a ganlyn:

## Tîm Gweithredol

| Enw | Cyflog a lwfansau £000 | | Buddion mewn da (i'r £100 agosaf)[1] | | Buddion pensiwn (i'r £000 agosaf)[2] | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 |
| Simon Chesterman<br>Dirprwy Brif Gwnstabl | 105-110[3] | 40-45 | 3,300 | - | - | - | 110-115 | 40-45 |
| Alistair Cook<br>Cyfarwyddwyr Trawsffurfio Busnes | 100-105[4] | 125-130 | - | - | 20,000 | 27,000 | 120-125 | 150-155 |
| Alan Cooper<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 100-105 | 95-100 | 7,200 | 7,200 | 30,000 | 23,000 | 135-140 | 125-130 |
| Mike Griffiths<br>Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl | 130-135 | 120-125 | 7,200 | 7,200 | 32,000 | 27,000 | 170-175 | 155-160 |
| Kenneth Kilpatrick<br>Cyfarwyddwr Busnes | 45-50[5] | - | 3,000 | - | 23,000 | - | 70-75 | - |
| Justin Rees<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 80-85[6] | 90-95 | 2,700 | 7,200 | 52,000 | 31,000 | 135-140 | 130-135 |

### Nodiadau

1 Roedd buddion mewn da ar gyfer Alan Cooper, Mike Griffiths a Justin Rees yn cynnwys car wedi ei gynnal yn llawn. Derbyniodd Simon Chesterman gar wedi ei gynnal y llawn o 13 Hydref 2014 a Kenneth Kilpatrick o 1 Tachwedd 2014.

2 Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn wedi ei gyfrifo fel y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosogi gan 20 a'r gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad llai'r cyfraniadau a wnaethpwyd gan yr unigolyn.

3 Roedd cyflog a lwfansau blwyddyn lawn yn £110-115,000

4 Roedd cyflog a lwfansau blwyddyn lawn yn £125-130,000

5 Roedd cyflog a lwfansau blwyddyn lawn yn £90-95,000

6 Roedd cyflog a lwfansau blwyddyn lawn yn £95-100,000 Mae'r cyflog a lwfansau yn cynnwys taliad terfyniad.

Ystadegau Allweddol



Helpodd y Grŵp Hebrwng Strategol gludo deunydd niwclear dros

**61,000**

o filltiroedd yn ddiogel mewn 4 blynedd

# Lluosogion Cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ganolrif gweithlu eu sefydliad.

Roedd cydnabyddiaeth band y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y CNPA, sef y Prif Swyddog Gweithredol / Prif Gwnstabl, yn y flwyddyn ariannol 2014/15 oedd £140,000-£145,000 (2013/14: £130,000-£135,000). Roedd hyn 4.3 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ganolig cyflogeion y CNPA (2013/14: 3.4 gwaith), sef £32,483 (2013/14: £38,651). Gostyngodd cydnabyddiaeth canolrif o tua 16% rhwng 2013/14 a 2014/15. Gostyngodd cyfartaledd cost cyflogau fesul cyflogai yn 2014/15 oherwydd cynnydd mewn nifer o swyddogion newydd a gafodd eu recriwtio ar ben isaf y raddfa gyflog yn rhannol wedi ei osod yn erbyn swyddogion a staff sifiliad yr heddlu yn derbyn dyfarniad cyflog o 1% o Fedi 2014. Roedd hyn wedi ei osod yn erbyn costau goramser is a godwyd yn darparu galluedd atodol ar safleoedd gweithredol.

Yn 2014/15, ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (2013/14: dim). Roedd cydnabyddiaeth, ac eithrio ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf, yn amrywio o £16,218 i £127,000 (2013/14: £16,058 i £127,000).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad heb ei gydgrynhoi yn ogystal â buddion mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn gweithwyr a gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod pensiynau.

# Hawliau Pensiwn

Mae'r hawliau pensiwn a ddangosir yn y tabl isod yn rhai fyddai'n cael eu talu'n flynyddol ar ymddeol yn seiliedig ar wasanaeth hyd at 31 Mawrth 2015 ac yn cynnwys gwrth blynyddoedd ychwanegol y mae aelodau'r CPS wedi talu amdanynt. Mae'r ffigurau pensiwn yn ymwneud â'r buddion mae'r unigolyn wedi eu cronni fel cyfanswm gwasanaeth i'r CNPA, nid dim ond dan ei gyflogaeth bresennol. Mae gan aelodau'r cynllun pensiwn ddewis o dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Atodol (AVC); nid yw'r cyfraniad na'r buddion dilynol yn cael eu cynnwys yn y tabl canlynol.

| Enw | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed £000 | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol i 31 Mawrth 2015 £000 | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol i 31 Mawrth 2014[1] £000 | Cynnydd real mewn gwerth trosglwyddiad sy'n cyfateb i arian £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Gweithredol** | | | | | |
| Alistair Cook | 0-5 plws<br>5-10 cyfandaliad | 0-2.5 plws<br>2.5-5 cyfandaliad | 55 | 34 | 21 |
| Alan Cooper | 5-10 plws<br>25-30 cyfandaliad | 0-2.5 plws<br>5-7.5 cyfandaliad | 188 | 160 | 28 |
| Mike Griffiths | 0-5 plws<br>10-15 cyfandaliad | 0-2.5 plws<br>5-7.5 cyfandaliad | 91 | 51 | 40 |
| Kenneth Kilpatrick | 10-15 plws<br>55-60 cyfandaliad | 0-2.5 plws<br>5-7.5 cyfandaliad | 287 | 252 | 35 |
| Justin Rees | 25-30 plws<br>85-90 cyfandaliad | 0-2.5 plws<br>5-7.5 cyfandaliad | 549 | 503 | 46 |

Nodiadau

1 Mae CETVs wedi eu hailddatgan ar 31 Mawrth 2014 oherwydd newidiadau mewn tybiaethau actiwarïaid a ddefnyddir i'w cyfrifo.

2 Nid yw Simon Chesterman yn aelod o CPS.

# Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau cynllun pensiwn a aseswyd gan actwari a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau'r aelod a gronnir ac unrhyw bensiwn wrth gefn sydd gan briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn mae wedi cronni yn ei gynllun blaenorol.

Mae a wnelo'r ffigurau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm gwasanaeth pensiynadwy ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo. Gallant hefyd gynnwys symiau a drosglwyddir i mewn i'r cynllun.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun y Gwasanaeth Sifil (CS) ac y mae'r Bleidlais CS wedi derbyn trosglwyddiad sy'n gymesur i'r atebolrwydd pensiwn atodol a dybir. Maent hefyd yn cynnwys manteision pensiwn atodol i'r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

## Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae'r gwir gynnydd mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sydd wedi ei ariannu'n effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Aelodau annibynnol a chynrychiolwyr diwydiant

| Enw | Ffioedd £000 | | Buddion mewn da (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 |
| Ian Abbott<br>Aelod Diwydiant<br>(Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) | - | - | - | - | - | - |
| Stephen Barrett<br>Aelod Annibynnol | 15-20 | 15-20 | - | - | 15-20 | 15-20 |
| George Beveridge<br>Aelod Diwydiant (Sellafield Ltd) | - | - | - | - | - | - |
| Paul Kernaghan<br>Aelod Annibynnol<br>a Chynghori ar Blismona | 15-20 | 15-20 | - | - | 15-20 | 15-20 |
| Gwen Parry-Jones<br>Aelod Diwydiant<br>(EDF Energy Nuclear Generation Ltd) | - | - | - | - | - | - |
| Mark Rouse<br>Aelod Diwydiant<br>(Dounreay Site Restoration Ltd) | - | - | - | - | - | - |
| Matt Sykes<br>Aelod Diwydiant<br>(EDF Energy Nuclear Generation Ltd) | - | - | - | - | - | - |
| Syr Philip Trousdell[1]<br>Cadeirydd ac Aelod Annibynnol | 65-70 | 65-70 | 7,200[1] | 7,200 | 70-75 | 70-75 |
| Robert Wright<br>Aelod Annibynnol | 15-20 | 15-20 | - | - | 15-20 | 15-20 |

Nodiadau

1 Roedd buddion mewn da ar gyfer Syr Philip Trousdell yn cynnwys car wedi ei gynnal yn llawn.

**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl
12 Mehefin 2015

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil a'r Swyddog Cyfrifyddu



Dan Ddeddf Ynni 2004, mae'r Ysgrifennydd Gwladol (gyda chaniatâd Trysorlys EM) wedi cyfarwyddo'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA) i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r CNPA ynghyd â'i incwm a'i wariant, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr, a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), ac yn arbennig:

- Arsylwi'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisïau cyfrifyddu perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y nodir yn y FReM, a datgan ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) wedi dynodi'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu'r CNPA. Manylir ar gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r CNPA, yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu

Ystadegau Allweddol

1 Awdurdod yr Heddlu gydag

8

o aelodau

## Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ac yn gweithio gyda Bwrdd yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA), rwy'n gyfrifol am gynnal llywodraethu effeithiol a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y CNPA wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyfarnwyd i mi yn adran nawdd y CNPA, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC).

## Fframwaith Llywodraethu

Mae'r CNPA yn gweithio o fewn Dogfen Fframwaith gyda'r DECC. Mae hyn yn sefydlu diben y CNPA, elfennau craidd y berthynas gyda'r DECC a'r fframwaith y byd dy CNPA yn gweithredu o fewn iddi. Rwyf wedi fy nghefnogi yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu gan Awdurdod yr Heddlu, Bwrdd y CNPA a'i bwyllgorau a Thîm Gweithredol fel yr amlinellwyd gyferbyn:

## Awdurdod yr Heddlu

Diffinnir rôl Awdurdod yr Heddlu gan y Ddeddf Ynni 2004. Penodir yr aelodau Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac maent yn annibynnol o reolaeth y Cwnstabliaeth Niwclear Sifil (CNC). Prif ddyletswydd yr Awdurdod yw diogelu cynhaliaeth CNC effeithiol ac effeithlon. Mae'r Awdurdod yn goruchwylio'r CNC, gan arfer hyn trwy Fwrdd y CNPA. Mae'n penodi aelodau'r uwch dîm rheoli ac yn cyflogi ei swyddogion a staff. Dirprwywyd nifer o'i swyddogaethau i fwrdd y CNPA.

Cyfarfu'r Awdurdod bedair gwaith yn 2014/15. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd y DECC Adolygiad Teirblwydd i ddibenion ac effeithlonrwydd y CNPA. Darparodd adroddiad drafft y tîm adolygu tystiolaeth bositif o'r angen parhaus ar gyfer y CNPA ac achos cryf i'w swyddogaethau barhau i gael eu cyflawni gan gorff cyhoeddus anadrannol (NDPB). Casglodd tîm yr adolygiad hefyd bod y rheoliadau a threfniadau llywodraethu sydd ar waith yn gymesur a phriodol. Roedd cymeradwyaeth weinidogol o adroddiad drafft y tîm adolygu yn dal heb ei dderbyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Bwrdd y CNPA

Mae'r Bwrdd yn bwyllgor i'r CNPA ac yn cynnwys 8 aelod o'r Awdurdod a 4 aelod o'r Tîm Gweithredol. Mae'n herio ac yn cefnogi'r Tîm Gweithredol ac yn craffu ar ein cynigion a pherfformiad, yn arbennig parthed datblygiad strategaeth tair blynedd a chynllun busnes; cyflawniad y cynllun blynyddol a chyllideb a gymeradwywyd; gan gynnwys perfformiad yn erbyn metrigau allbwn; a'r adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r CNPA. Yn ogystal, mae Bwrdd y CNPA yn cymryd trosolwg o risg corfforaethol ac yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i gytuno ar archwaeth y sefydliad am risg.

## Awdurdod yr Heddlu

Mae Awdurdod yr Heddlu wedi dirprwyo nifer o'i gyfrifoldebau i Fwrdd y CNPA. Mae'n dal yn gyfrifol am:

- Sicrhau cynnal a chadw effeithiol ac effeithlon y CNC a phennu ei amcanion plismona;
- Penodi aelodau o Dîm Gweithredol a Phennaeth y Swyddfa Weithredol a Gwasanaethau Cyfreithiol a chyflogi aelodau o'r CNC; a
- Bod yn atebol am berfformiad gweithredol a rheoli'r CNC i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r cyhoedd.

Penodir yr aelodau Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac maent yn annibynnol o reolaeth y CNC.

## Bwrdd y CNPA

Mae Bwrdd y CNPA yn cynnwys 8 aelod o'r Awdurdod a phob aelod o'r Tîm Gweithredol o 4 unigolyn.
Rôl y Bwrdd yw i:

- Osod y fframwaith strategol, polisi, adnoddau a rheoli perfformiad ar gyfer y CNC;
- Monitro perfformiad cyffredinol y CNC yn erbyn y strategaethau a gytunwyd a chytuno ar gamau i unioni os oes angen; a
- Chefnogi a chynghori'r Prif Swyddog Gweithredol/Prif Gwnstabl wrth arfer ei swyddogaethau.

**Pwyllgor Uwch Benodiadau**
Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am:

- Argymell penodiad aelodau'r Uwch dîm rheoli; a
- Throsolwg o reoli perfformiad uwch swyddogion/datblygiad personol/tâl.

**Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu**
Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd trwy adolygu:

- Rheoliadau mewnol;
- Prosesau rheoli risg;
- Trefniadau llywodraethu'r CNPA;
- Ansawdd a dibynadwyedd adrodd ariannol; ac
- Adroddiadau iechyd a diogelwch.

## Tîm Gweithredol

Cefnogir y Prif Swyddog Gweithredol/Prif Gwnstabl yn ei rôl gan Dîm Gweithredol sydd:

- Yn gyfrifol am weithredu penderfyniadau strategol Bwrdd y CNPA; ac
- Yn darparu rheoli gweithredol a llywodraethu i gyflawniad gweithrediadau'r CNC.
- Mae'r tîm wedi ei arwain gan y Prif Swyddog Gweithredol/Prif Gwnstabl ac mae ei aelodaeth yn cynnwys y Cyfarwyddwr Galluoedd, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Busnes.

**Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad**
Cyfrifol am:

- Flaenoriaethau busnes, monitro perfformiad a gwneud penderfyniadau busnes.

**Is-bwyllgor Gweithrediadau**
Cyfrifol am:

- Lywodraethu, cyfeiriad a chydlynu'r holl blismona gweithredol.

**Is-bwyllgor Llywodraethu Polisi**
Cyfrifol am:

- Adolygu, gweithredu a sicrhau'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol.

**Pwyllgor Cynllunio Strategol y Gweithlu**
Cyfrifol am:

- Gyfarwyddo a chydlynu adnoddau pobl a gweithgaredd pobl.



Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd a sicrhau ei fod yn effeithiol o ran cyflawni ei rôl. Fe'i cefnogir gan aelodau anweithredol annibynnol ac aelod anweithredol o rolau uwch yn y diwydiant niwclear, y maent oll wedi eu dewis i sicrhau amrywiaeth briodol o sgiliau a phrofiad i hysbysu syniadau strategol y CNPA. Cyfarfu'r Bwrdd chwe gwaith yn 2014/15. Yn ystod 2014/15, camodd Matt Sykes i lawr fel aelod anweithredol y diwydiant o'r bwrdd gyda Gwen Parry-Jones OBE yn cymryd ei le. Gadawodd dau aelod gweithredol o'r bwrdd, Justin Rees ac Alistair Cook, y CNPA. Penodwyd Kenneth Kilpatrick, y cyfarwyddwr Busnes, yn aelod gweithredol o'r Bwrdd, gan ddechrau yn ei rôl yn Medi 2014.

## Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu

Cadeirir y Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu (ARGC) gan aelod annibynnol anweithredol o'r Bwrdd. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2014/15 ac ystyried y casgliadau mewn adroddiadau a baratowyd gan Archwilwyr Mewnol y CNPA, Baker Tilly, yn seiliedig ar gynllun archwilio a gytunwyd o flaen llaw gan Bwyllgor yr ARGC. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys y materion rheoli risg a llywodraethu canlynol:

- Llywodraethu corfforaethol
- Caffael a rheoli cytundebau
- Rheoli risg a sicrwydd
- Systemau cyfrifyddu craidd
- Trawsnewid busnes (ac adroddiad dilynol)
- Cynllunio strategol a pherfformiad sefydliadol
- Cyllidebu, cynllunio a rheoli
- Defnydd o stociau a storfeydd - arfau a drylliau

Mewn pump o'r adolygiadau, roedd y Bwrdd yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod y rheoliadau mewnol wedi a brofwyd wedi eu cynllunio'n briodol, eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol. Roedd y Bwrdd yn gallu cymryd rhywfaint o sicrwydd yn unig o gynllun, gweithrediad ac effeithlonrwydd y rheoliadau mewnol ar gyfer yr adolygiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu Corfforaethol**<br>I sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol yn gweithredu yn y CNC. | • Nid yw rhai pwyllgorau mewnol yn gweithredu'n effeithiol gyda diffyg presenoldeb a strwythur a heb unrhyw gylch gorchwyl cytunedig.<br>• Nifer uchel o adroddiadau yn cael eu paratoi gydag agendâu cyfarfod ad hoc.<br>• Adroddiadau heb eu paratoi a dosbarthu mewn modd amserol. |
| **Caffael a Rheoli Cytundebau**<br>I sicrhau bod prosesau effeithiol, effeithlon, economaidd a thryloyw ar waith ar gyfer gwneud taliadau a dyfarnu contractau. | • Ni all gwendidau yn y broses ddyfynnu arddangos y sicrhawyd gwerth am arian ar gyfer pryniannau dan £10,000.<br>• Dim prosesau ar waith i ddelio â diffyg cydymffurfiad caffael, diffyg cydymffurfiad ildiad tendr sengl a nodi cyflenwyr sy'n ofynnol i gydymffurfio i gwblhau llythyr agweddau diogelwch. |

| | |
|---|---|
| **Trawsffurfio Busnes**<br>I sicrhau y cynhelir trefniadau rheoli prosiect priodol ar gyfer aildrefnu pencadlys y CNPA, gwasanaethau a rennir a phrosiectau gwasanaethau a rennir a moderneiddio TG i alluogi cyflawni buddiannau. | • Nid yw risgiau yn gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau a gweithredoedd a rheoliadau lliniarol wedi eu cynnwys ar y gofrestr risg gorfforaethol ar bob adeg.<br>• Dim bwrdd rhaglen trosfwaol i reoli rhyngberthynas rhwng prosiectau cyfansoddol a pholisi sydd wedi dyddio ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau.<br>• Dim cynllun prosiect, cofnod o risgiau a phroblemau a strwythur llywodraethu diffiniedig ar gyfer prosiect ad-drefnu pencadlys y CNPA. |

Mae cynlluniau gweithredu wedi eu sefydlu i ddelio â gwendidau a nodwyd mewn rheoliadau mewnol. Nid oes gan yr un ohonynt berthynas faterol â llywodraethu cyffredinol neu gryfder ariannol y sefydliad. Mae'r Archwiliad Mewnol hefyd wedi edrych ar ei argymhellion yn ei adolygiad o Drawsnewid Busnes ac adrodd y sicrhawyd cynnydd da; roedd 89% o'r gweithredoedd i ddelio â'i argymhellion wedi eu cwblhau. Bydd yn edrych eto ar ei adolygiadau o lywodraethu corfforaethol a chaffael a rheoli contract 2015/16.

Mae ARGC yn adolygu effeithlonrwydd swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol, ac wedi mynegi'r farn bod y swyddogaethau hyn yn parhau i weithredu'n effeithiol ar gyfer 2014/15 yn y ddarpariaeth o sicrwydd o safonau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CNPA.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni hunanasesiad blynyddol yn defnyddio rhestr wirio arfer da'r Swyddfa Archwilio Cenedlaethol (NAO). Mae canlyniadau hunanasesiad 2014/15 yn arddangos gradd uchel o gydymffurfiad ag arfer da.

## Pwyllgor Uwch Benodiadau

Cynhaliodd y Pwyllgor Uwch Benodiadau (SAC) bum cyfarfod yn 2014/15 oedd yn ffocysu ar adolygiad o amodau a thelerau cyflogaeth ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol, gan eu meincnodi â sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Goruchwyliodd yr SAC yr uwch arweinyddiaeth, datblygu a chynllunio olyniaeth gydag argymhelliad i benodi rôl weithredol newydd Cyfarwyddwr Busnes gan gychwyn ar y broses ddethol ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithrediadau/Prif Gwnstabl Cynorthwyol a phenodiad cyfnod sefydlog swydd newydd Cyfarwyddwr Rhaglen i oruchwylio Rhaglen Pobl y CNPA. Gofynnodd yr SAC hefyd am adolygiad o fonitro perfformiad y Tîm Gweithredol, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2015/16.

### Ystadegau Allweddol



Dros

**120**


o Hyfforddwyr Arfau Tanio

# Y Tîm Gweithredol

Rwyf wedi fy nghefnogi gan Dîm Gweithredol, sy'n cwrdd yn wythnosol ac yn darparu rheolaeth a llywodraethu gweithredol o weithrediadau a chyflawniad y CNC. Yn ystod 2014/15, cafwyd newidiadau yn y Tîm Gweithredol. Gadawodd Justin Rees, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Alistair Cook, Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes, y CNC. Crëwyd swydd newydd Cyfarwyddwr Busnes oedd yn cyfuno'r ddwy rôl hyn ac fe ddyrchafwyd Kenneth Kilpatrick i'r rôl hon yn effeithiol o 29 Medi 2014. Cefnogir y Tîm Gweithredol gan uwch reolwyr gweithredol ac anweithredol. Rhoddir siart sefydliadol isod.

Yn ystod 2014/15, cefnogwyd y Tîm Gweithredol gan bedwar pwyllgor: y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad, sef y corff gwneud penderfyniadau busnes allweddol a fforwm ar gyfer blaenoriaethu busnes a monitro perfformiad; yr Is-bwyllgor Gweithrediadau sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu, cyfarwyddo a chydlynu plismona gweithredol; yr Is-bwyllgor Llywodraethu Polisi sy'n darparu fforwm ar gyfer adolygu a gweithredu'r holl bolisïau a gweithdrefnau; a'r Pwyllgor Cynllunio Gweithlu Strategol sy'n canolbwyntio ar bolisi a gweithdrefnau cynllunio gweithlu'r CNC.

Adolygodd yr Archwiliad Mewnol drefniadau llywodraethu'r pwyllgorau hyn. Fe nodont tra bod cynllun strwythur y pwyllgor yn dal yn briodol, nad yw'r pwyllgorau yn gweithredu mor effeithiol ag y bwriadwyd. Amlygodd Archwiliad Mewnol y pwyllgorau'r nifer fawr o adroddiadau sy'n cael eu paratoi ar gyfer gyfarfodydd ac, efallai'n gysylltiedig, nad oedd adroddiadau yn cael eu cynhyrchu a dosbarthu yn ddigonol o flaen llaw i gyfarfodydd. Datblygwyd cynllun gweithredu ac mae'n cael ei weithredu i ddelio â'r gwendidau hyn.




## Nodyn

Mae Pennaeth y Swyddfa Weithredol yn adrodd i Gadeirydd y CNPA

# Adolygiad Perfformiad ac Effeithlonrwydd Bwrdd y CNPA

Dangosir cofnodion presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd Awdurdod yr Heddlu, Bwrdd a Phwyllgor yn 2014/15 isod:

| Aelodau Anweithredol (NE) | Awdurdod Heddlu (4 mewn blwyddyn) | Bwrdd y CNPA (6 mewn blwyddyn) | Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu (4 mewn blwyddyn) | Pwyllgor Uwch Benodiadau (5 mewn blwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Syr Philip Trousdell (Cadeirydd) (NE) | 4 | 6 | -[1] | 5 |
| Mike Griffiths (Prif Swyddog Gweithredol/ Prif Gwnstabl) | -[1] | 6 | -[2] | -[2] |
| Ian Abbott (NE) | 4 | 6 | 4 | -[1] |
| Stephen Barrett (NE) | 4 | 5 | -[1] | 4 |
| George Beveridge (NE) | 3 | 4 | -[1] | 3 |
| Simon Chesterman | -[1] | 3 | -[1] | -[1] |
| Alistair Cook[3] | -[1] | 3 (o 4) | -[2] | -[1] |
| Alan Cooper | -[1] | 2 | -[1] | -[1] |
| Paul Kernaghan (NE) | 3 | 5 | -[1] | -[1] |
| Kenneth Kilpatrick[4] | -[1] | 3 (o 3) | -[2] | -[1] |
| Gwen Parry-Jones (NE) | 2 (o 3) | 4 (o 5) | 2 (o 2) | |
| Justin Rees[5] | -[1] | 0 (o 2) | -[2] | -[1] |
| Mark Rouse (NE) | 2 | 5 | -[1] | -[1] |
| Matt Sykes (NE)[6] | 1 (o 1) | 1 (o 1) | 0 (o 1) | -[1] |
| Rob Wright (NE) | 4 | 6 | 4 | -[1] |

### Nodiadau

1 Ddim yn aelodau o'r Pwyllgorau
2 Ddim yn aelodau o'r Pwyllgorau, ond gyda gwahoddiad sefydlog i fynychu
3 Gadawodd Alistair Cook y CNPA yn Ionawr 2015
4 Penodwyd Kenneth Kilpatrick yn aelod gweithredol o'r bwrdd ym Medi 2014
5 Gadawodd Justin Rees y CNPA yn Awst 2014
6 Ymddiswyddodd Matt Sykes ym Mai 2014 gyda Gwen Parry-Jones yn cymryd ei le ym Mehefin 2014

Cyflawnodd yr Archwiliad Mewnol adolygiad o drefniadau llywodraethu Bwrdd ac is-bwyllgorau'r CNPA. Adroddont y gellid cymryd llwyddiant sylweddol o ran cynllun, gweithrediad ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd CNPA a'i is-bwyllgorau.

Adrodd Archwiliad Mewnol ymhellach y cyhoeddwyd adroddiadau'r Bwrdd yn ddigon o flaen llaw i gyfarfodydd a'u bod o safon oedd yn hysbysu aelodau'r Bwrdd i'w galluogi i gyhoeddi heriau priodol. Mae'r Bwrdd wedi gofyn am fetrigau o ran perfformiad y CNC wrth reoli risgiau ar ffurf dangosfwrdd yn dangos a yw ei amlygiad i risg yn cynyddu neu'n lleihau ac os yw ei berfformiad o ran rheoli a lliniaru'r risgiau hyn yn gwella neu'n gwaethygu. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu i'r Bwrdd yn 2015/16.



Cynhaliodd y Bwrdd gynhadledd strategol yn Nhachwedd 2014. Roedd ffocws y cyfarfod hwn ar drafod yr angen am 'raglen pobl' i adolygu amodau a thelerau, rheoli perfformiad a rheoli talent swyddogion yr heddlu, ac i adolygu effaith parhau i fod yn wasanaeth ymateb arfau tanio 100%. Darparwyd cipolwg ymlaen strategol hefyd gan adran noddi'r CNPA a phartneriaid allweddol yn y diwydiant niwclear.

Mae'r CNPA yn cadw cofrestr buddiannau i sicrhau y gellir nodi gwrthdaro buddiannau posibl a delio â nhw o flaen llaw i drafodaethau'r Bwrdd. Ble ceir potensial am wrthdaro, fe'i cofnodir yng nghofnodion y Bwrdd, ynghyd ag unrhyw gamau priodol i'w datrys. Yn ystod 2014/15, ni ddatganodd unrhyw aelod o'r Bwrdd wrthdaro buddiannau.

# Rheoli Risg a Rheolaeth

## Rheoli Risg

Cynhaliwyd gweithdai rheoli risg yn 2014/15 i alinio'r risgiau corfforaethol i strategaeth a chynllun busnes tair blynedd y CNPA. Mae hyn wedi cynhyrchu prif gofrestr risg sy'n cynnwys yr holl risgiau strategol (risgiau i gyflawniad y Cynllun Strategaeth a Busnes) ond hefyd yn cynnwys risgiau arwyddocaol eraill (rhaglen, prosiect neu weithredol) y dylid eu dwyn i sylw'r Tîm Gweithredol, ARGC a Bwrdd y CNPA. Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd y mae'r CNPA yn wynebu wedi eu cyflwyno yn yr Adroddiad Strategol.

Mae natur a statws risgiau corfforaethol allweddol nawr yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r ARGC ynghyd â chamau lliniarol a gymerir. Mae'r Pwyllgor yn herio rheolwyr ble fo angen i gael y sicrwydd mae angen dros gadernid y gweithredoedd hyn. Mae heriau penodol yn 2014/15 wedi bod ar gyflawnrwydd y gofrestr risg strategol a'r broses ar gyfer cynyddu risg i'r ARGC a Bwrdd y CNPA. Cymerwyd camau i redeg gweithdai risg dan arweiniad allanol ddwywaith y flwyddyn ar gyfer risgiau corfforaethol a gweithredol ac mae camau lliniarol yn parhau yn gyflawn, yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r ARGC wedi gofyn am fap sicrwydd yn seiliedig ar '3 linell amddiffyn' Trysorlys EM.

## Sicrwydd Rheoli Risg

Casglodd yr archwiliad rheoli risg blynyddol a gyflawnwyd gan Archwilwyr Mewnol y CNPA, Baker Tilly, y gellir cymryd sicrwydd rhesymol ar gynllun, gweithrediad ac effeithlonrwydd rheoliadau mewnol yn gweithredu dros reoli risg. Adroddodd archwilio mewnol y cafwyd cynnydd da o ran datblygu'r prif risgiau a chysylltu strategaeth, perfformiad a risgiau, ond bod angen gwaith pellach i sicrhau bod y gofrestr risgiau yn adlewyrchu'r proffil risg yn llawn ac y trafodwyd risgiau allweddol yn y Bwrdd.

Gwnaeth yr Archwilwyr Mewnol nifer o argymhellion yn cynnwys terfynu diweddariadau dogfen fframwaith polisi risg a rheoli risg y CNPA; darparu hyfforddiant ffurfiol i berchnogion risg; gwella cydymffurfiad â chanllaw Swyddfa'r Cabinet ar reoli risg; a sicrhau bod yr holl risgiau prosiect a rhaglen wedi eu cofnodi ar gofrestr risg y CNPA. Bydd camau i weithredu'r argymhellion yn cael eu cyflawni yn 2015/16.

## Archwaeth am Risg

Diffinnir archwaeth risg fel y lefel o risg mae'r CNPA yn fodlon wynebu i gyflawni ei amcanion, wrth barhau i ddarparu'r lefel ofynnol o sicrwydd i randdeiliaid bod asedau wedi eu diogelu.

Mae gan y CNPA archwaeth isel am risgiau. Mae'r datganiad hwn yn arddangos yn glir i randdeiliaid na fydd y CNPA yn amlygu eu hunain i risg ddiangen. Yr unig elfen fydd yn atal yr ymgyrch barhaus i liniaru risg yw argaeledd adnoddau all fod eu hangen i gyflawni'r lefel ofynnol o reolaeth risg.

## Datganiad o Risg Gwybodaeth

Rhaid i'r CNPA gynnal cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd ei wybodaeth i weithredu'n effeithiol, effeithlon a diogel.

Mae'r CNPA yn cydymffurfio â Fframweithiau Polisi Diogelwch (SPF) Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) ar gyfer diogelwch gwybodaeth. Mae fframwaith yr ONR yn dilyn un Swyddfa'r Cabinet yn gyffredinol, ond yn gosod safonau ar gyfer diogelu deunydd niwclear sensitif sy'n angenrheidiol i ddiogelu safleoedd niwclear trwyddedig a deunydd a gludir.

Fel sy'n ofynnol gan yr SPFs, mae'r CNPA yn defnyddio System Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth (GPM) ac mae ganddynt bolisïau a rheoliadau ar waith i sicrhau bod mynediad at wybodaeth wedi ei reoli'n briodol a'i ddiogelu trwy gydol ei gylch oes yn cynnwys creu, storio, trosglwyddo a dinistrio. Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod risgiau gwybodaeth wedi eu hasesu a lliniaru i lefel dderbyniol. Fe'm cefnogir o ran cyflawni'r cyfrifoldeb hwn gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) lefel Bwrdd, yr adrannau TG a Diogelwch a rhwydwaith o Berchnogion Asedau Gwybodaeth (IAOs) sy'n cwmpasu'r holl wybodaeth a gedwir.

Mae'r CNPA wedi cytuno i gyrraedd a chynnal Lefel 3 ar Fodel Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth y llywodraeth (IAMM). Mae Lefel 3 yn golygu bod ymwybyddiaeth sicrwydd gwybodaeth ar draws y sefydliad yn arwain at welliant mesuradwy mewn ymddygiadau rheoli risg gwybodaeth ar bob lefel yn y sefydliad, ei bartneriaid cyflawni a chyflenwyr trydydd parti. Dyma'r lefel targed gwasanaeth yr heddlu a osodir gan Fwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yr Heddlu ac sydd wedi ei fabwysiadu gan y CNPA. Cyflawnodd y CNC Hunanasesiad gyda Chefnogaeth IAMM gyda'r Grŵp Diogelwch Electronig Cyfathrebiadau (CESG), cangen diogelwch gwybodaeth Pencadlys Cyfathrebiadau'r Llywodraeth, yn Hydref 2014, a arweiniodd at gyflawniad Lefel 3 ym mhob maes. Er mai dyma'r targed sy'n ofynnol gan y CNPA, roedd y cyflawniad hwn wedi ei gymhwyso a chytunwyd y byddai'r CNC yn ceisio cryfhau ei reolaeth cyflenwyr, hyfforddiant SIRO ac IAO a phrosesau mewnol ar adrodd a chydymffurfiad. Bydd y rhain yn cael eu hail-werthuso gan y CESG yn 2015/16.

## Digwyddiadau yn Ymwneud â Data Personol

Ni chafwyd unrhyw achosion data personol a ddiogelir oedd yn adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2014/15.

Adroddwyd am un toriad diogelwch yn ymwneud â data personol gwarchodedig i'r ICO y llynedd a'i ddatgelu yn y Datganiad Llywodraethu. Cwblhaodd yr ICO ei ymchwiliadau a chasglu nad oedd angen camau pellach.

**Ystadegau Allweddol**



3

o gyfleusterau hyfforddi arfau tanio

Ystadegau Allweddol

Home Office

Gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref gan ddarparu cefnogaeth rheng flaen dros o

30

weithiau

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraeth Corfforaethol

Mae'r CNPA wedi cydymffurfio â'r Cod Arfer Da ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn llywodraeth ganolog cyn belled â'i bod yn berthnasol ac ymarferol ar gyfer Corff Hyd Braich o'r maint a'r cymhlethdod hwn. Gallaf gadarnhau bod y CNPA yn cydymffurfio ag argymhellion MacPherson ar gyfer sicrhau ansawdd modelau dadansoddi ac nad ydw i wedi derbyn unrhyw gyfarwyddiadau Swyddog Cyfrifyddu yn 2014/15.

## Gweithgareddau Sicrwydd Llywodraethu Eraill

Cyflawnodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) archwiliad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau gweithredol CNC i ddiogelu'r ystâd niwclear sifil a deunyddiau niwclear yn 2014/15. Dangosodd casgliadau HMIC bod y CNC wedi ei ddarparu, strwythuro, hyfforddi ac arwain yn briodol mewn modd sy'n ei alluogi i ymateb i ymosodiad terfysgol. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai meysydd ar gyfer gwelliant a fydd yn cael eu hystyried ac ymateb iddynt yn 2015/16.

Cyflawnodd Tîm Archwiliadau Mewnol y CNC raglen o brofion cydymffurfiad gyda pholisïau a gweithdrefnau gweithredol ynghyd ag 'archwiliadau yn y fan' a gyfarwyddwyd gan y Tîm Gweithredol. Fe nododd y tîm Archwiliadau feysydd arfer da. Mae eu hadroddiadau yn cynnwys rhai meysydd ar gyfer gwelliant a fydd yn cael eu gweithredu yn 2015/16.

## Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Hysbysir fy arolwg o waith yr Archwilwyr Mewnol, HMIC ac adrannau archwiliadau allanol a Thîm Gweithredol y CNPA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal strwythurau llywodraethu a fframwaith rheolaeth fewnol a sylwadau gan archwilwyr allanol y CNPA, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn eu llythyr rheoli.

Mae Archwilwyr Mewnol y CNPA, Baker Tilly, yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar reolaeth risgiau busnes allweddol ac effeithlonrwydd system lywodraethu y CNPA, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Ar gyfer 2014/15, casglodd Baker Tilly bod gan y CNPA drefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth digonol ac effeithiol. Ble ceir cyfleoedd ar gyfer gwelliant yn y fframwaith o ran llywodraethu, rheoli risg neu reolaeth neu ddiffyg cydymffurfiad arwyddocaol, mae cynllun gweithredu wedi ei gytuno gan reolwyr y CNC. Mae profion dilynol gan yr Archwilwyr Mewnol o argymhellion y flwyddyn flaenorol wedi datgelu lefel resymol o 80% o'r argymhellion wedi eu gweithredu. Adroddir ar statws yr argymhellion yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu.

Mae'r Bwrdd yn cadw ei drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoliadau mewnol dan adolygiad mewn ymateb i ddatblygiadau mewnol ac allanol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gynghori'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu ac wedi derbyn sicrwydd ar systemau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CNPA. Ni nodwyd unrhyw faterion gan yr Archwiliad Mewnol sy'n gofyn am grybwylliad yn y Datganiad Llywodraethu fel gwendidau rheolaeth arwyddocaol.

## Gwendidau Rheolaeth Fewnol Arwyddocaol



Gallaf adrodd nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn system rheoliadau mewnol y CNPA yn 2014/15 a effeithiodd ar gyflawniad ei bolisïau, nodau ac amcanion allweddol.

**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl
12 Mehefin 2015

# Adroddiad Archwiliad

## Adroddiad Archwiliad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Ynni 2004. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

## Cyfrifoldebau priodol y Bwrdd, Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Ynni 2004. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn casglu tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datguddiadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un a ydynt o ganlyniad i dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ac wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. At hynny, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol i nodi anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i adnabod unrhyw wybodaeth sydd yn ymddangos yn faterol anghywir yn seiliedig ar, neu'n faterol anghyson â'r, wybodaeth a dderbyniais wrth gynnal yr archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol ymddangosiadol neu anghysondeb rwy'n ystyried yr oblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar gysondeb

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o stad materion yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2015 ac o'r gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gywir yn unol â'r Ddeddf Ynni 2004 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- Mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w archwilio wedi ei baratoi'n gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf Ynni 2004; ac
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Sylwebaeth Rheoli ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd eithriad arnynt

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- Na chadwyd cofnodion cyfrifo digonol neu na dderbyniwyd dychweliadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- Nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w archwilio yn cytuno â'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllaw Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas C E Morse
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
17 Mehefin 2015

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol 2014/15

## I'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | 2014/15<br>£000 | 2013/14<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | 3 | **93,367** | **87,750** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 4 | (71,300) | (67,742) |
| Gwariant arall | 6 | (22,735) | (21,206) |
| **Diffyg gweithredu** | | (668) | (1,198) |
| Colledion o waredu eiddo, offer a chyfarpar | | (9) | (67) |
| **Diffyg ar weithgareddau arferol cyn costau ariannol** | | **(677)** | **(1,265)** |
| Incwm ariannol - llog derbyniadwy | | 16 | 16 |
| Cost ariannol - llog i'w dalu | | (16) | (16) |
| **Costau cyllido net** | | **-** | **-** |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **(677)** | **(1,265)** |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 2014/15<br>£000 | 2013/14<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 7 | 6,348 | 6,713 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 624 | 334 |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 739 | 563 |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **7,711** | **7,610** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stocrestrau | 10 | 1,512 | 1,519 |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 13,551 | 9,723 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 12 | 4,776 | 9,603 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **19,839** | **20,845** |
| **Cyfanswm asedau** | | **27,550** | **28,455** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 13 | (8,509) | (9,165) |
| Darpariaethau | 14 | (982) | (860) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(9,491)** | **(10,025)** |
| **Asedau nad ydynt yn bresennol ac asedau net presennol** | | **18,059** | **18,430** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 13 | (2,283) | (2,163) |
| Darpariaethau | 14 | (1,729) | (1,933) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(4,012)** | **(4,096)** |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | **14,047** | **14,334** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn | 15 | (5,494) | (4,817) |
| Cyllido wrth gefn | 15 | 19,541 | 19,151 |
| | | **14,047** | **14,334** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 46 i 73 gan Fwrdd y CNPA ar 11 Mehefin 2015 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl
12 Mehefin 2015

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Lif Arian Parod

Ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Diffyg a gadwyd ar gyfer y flwyddyn | | (677) | (1,265) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Colledion o waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 9 | 67 |
| Dirywiad asedau anghyffwrddadwy | | 277 | 184 |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | | 1,723 | 1,586 |
| Rhyddhau grant cyfalaf | | (838) | (545) |
| **Llifoedd arian gweithredol cyn newidiadau mewn cyfalaf gweithio a darpariaethau** | | **494** | **27** |
| (Cynnydd)/lleihad mewn masnach a derbynion eraill | | (4,004) | 680 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn stocrestrau | | 7 | (327) |
| Lleihad mewn masnach ac elfennau taladwy eraill | | (395) | (12) |
| Cynnydd mewn darpariaethau | | (82) | (1,633) |
| **Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau** | | **(3,980)** | **(1,265)** |
| Llog a dderbyniwyd | | 16 | 16 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(3,964)** | **(1,249)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant eiddo, offer a chyfarpar | | (2,133) | (1,807) |
| Pryniant asedau anniriaethol | | (96) | (4) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,229)** | **(1,811)** |
| **Llif arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grant cyfalaf a dderbyniwyd | | 991 | 851 |
| Grantiau gan y rhiant adran | | 277 | 3,151 |
| Cyfraniadau cyllido eraill | | 98 | 134 |
| **Ariannu net** | | **1,366** | **4,136** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chywerth arian yn y cyfnod** | 12 | **(4,827)** | **1,076** |
| **Arian a chywerth arian ar gychwyn y cyfnod** | 12 | **9,603** | **8,527** |
| **Arian a chywerth arian ar ddiwedd y cyfnod** | 12 | **4,776** | **9,603** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | Incwm a gwariant wrth gefn £000 | Cyllido wrth gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **(3,552)** | **15,850** | **12,298** |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2013/14** | 15 | | | |
| Cymorth grant a dderbyniwyd | | - | 3,151 | 3,151 |
| Symiau sy'n daladwy i'r DECC | | - | 150 | 150 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | | (1,265) | - | (1,265) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **(4,817)** | **19,151** | **14,334** |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2014/15** | 15 | | | |
| Cymorth grant a dderbyniwyd | | - | 277 | 277 |
| Symiau sy'n daladwy i'r DECC | | - | 113 | 113 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | | (677) | - | (677) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **(5,494)** | **19,541** | **14,047** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

Mae'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA) yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol (NDPB) o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ac yn preswylio yn y Deyrnas Unedig.

## 1. Datganiad o gydymffurfiad

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2014/15 a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu diwygio neu eu dehongli i'r cyd-destun sector gyhoeddus. Ble fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a farnir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y CNPA i'r diben o roi golwg wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan y CNPA isod. Maent wedi eu gweithredu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Sail Cyfrifyddu

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling, wedi eu talgrynnu i'r mil agosaf. Maent wedi eu paratoi ar sail cost hanesyddol ac ar sail busnes gweithredol.

Mae paratoi'r datganiadau ariannol mewn cydymffurfiad â'r IFRS yn gofyn i'r Tîm Gweithredol wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar weithrediad polisïau a symiau a adroddir o asedau, atebolrwydd, incwm a gwariant. Mae'r amcangyfrifon a dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol ac amrywiol ffactorau eraill y credir i fod yn rhesymol dan yr amgylchiadau, ac y mae eu canlyniadau yn llunio sail gwneud dyfarniadau am gario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg i bawb o ffynonellau eraill. Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Rhestrir yr amcangyfrifon a thybiaethau sy'n cael risg arwyddocaol o achosi addasiad materol i'r swm a gludir o asedau ac atebolrwydd isod:

- Bywydau ased ar gyfer eiddo, cyfarpar ac offer ac asedau anniriaethol;
- Adferolrwydd derbynion;
- Amcangyfrifon o gostau a gronnwyd;
- Darpariaethau; a
- Darfodiad stocrestr.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a sefydlwyd isod, oni bai y datganwyd fel arall, wedi eu gweithredu'n gyson i'r holl gyfnodau a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r CNPA wedi adrodd diffyg gweithredol o £668,000 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Mae hyn oherwydd yr wynebwyd y costau canlynol:

- Darparodd y CNPA £500,000 yn ychwanegol i setlo hawliadau yn dilyn dyfarniadau yn ei erbyn mewn tribiwnlys cyflogaeth. Mae'r CNPA yn ystyried nad yw'r costau hyn yn gostau gweithredol ac felly ni ellir eu codi ar ei gwsmeriaid. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y costau hyn yn cael eu talu gan y DECC trwy gymorth grant a'i gydnabod ar sail arian parod pan dderbynnir y taliad.

- Mae'r balans ar y diffyg gweithredu o £168,000 oherwydd dad-ddirwyn y gostyngiad ar daliadau yn y dyfodol am gostau gadael cynnar a newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer costau gadael cynnar oherwydd newidiadau mewn cyfraddau a ragwelwyd ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n ategu taliadau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer cyflogeion sydd wedi derbyn ymddeoliad gwirfoddol gan safleoedd nad yw CNC bellach yn eu plismona.

Nid yw Bwrdd y CNPA wedi sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer ei gyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2015/16. I gynnal parhad busnes, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cyllideb dros dro, yn seiliedig ar broffil gwariant chwarter olaf 2014/15 a bod y CNPA yn bodloni ei holl rwymedigaethau cytundebol ac ymroddedig hyd at 25 Mawrth 2015. Mae'r holl wariant newydd ar fentrau 2015/16 wedi ei atal nes y bydd cyllideb wedi ei chytuno gan yr holl SLCs a'r NDA a'i chymeradwyo gan y Bwrdd.

Mae Bwrdd y CNPA yn parhau i fod yn hyderus y bydd yn sicrhau cytundeb gan SLCs a'r NDA i ariannu cyllideb 2015/16ac felly mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Cyflwynir rhagor o wybodaeth am weithgareddau gweithredu'r CNPA, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, perfformiad a sefyllfa yn y dyfodol, yn y Sylwebaeth Rheoli.

## 1.2 Newidiadau i Bolisi Cyfrifyddu a Datgeliadau

### Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond ddim yn effeithiol eto

Mae rhai safonau newydd, addasiadau i safonau a dehongliadau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) heb ddod yn effeithiol eto ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac nid ydynt wedi eu gweithredu wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Y rhain yw:

- IFRS 13 Mesur Gwerth Teg;
- IFRS 14 Cyfrifon Atgyfeirio Rheoleiddiol; ac
- IFRS 15 Incwm o Gontractau gyda Chwsmeriaid.

Nid yw'r CNPA yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r safonau a dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith faterol ar ei ddatganiadau ariannol.

## 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Datgenir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar gost, yn cynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod ag asedau o'r fath i gyflwr gweithredol, llai dibrisiant a gronnwyd a net o unrhyw golledion amhariad a gronnwyd fel procsi ar gyfer gwerth teg. Mae asedau yn cael eu cario ar werth mewn defnydd ac ym mhob dosbarth o asedau defnyddir cost hanesyddol wedi dibrisio fel dirprwy ar gyfer gwerthusiad presennol i asedau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol byr neu werth isel, neu'r ddau. Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar dan £2,000 yn cael ei ystyried i fod yn wariant refeniw a'i gydnabod yn llawn yn y flwyddyn y'i prynwyd.

Cyfrifir dibrisiant i ddileu cost neu werthusiad eiddo, peiriannau a chyfarpar, llai eu gwerthoedd dros ben a amcangyfrifir, ar sail llinell syth yn ystod y bywydau economaidd yr asedau dan sylw. Mae'r prif gategorïau ased a'u bywydau economaidd defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar cludiant | Hyd at 8 mlynedd |
| Offer a pheiriannau | 5-10 o flynyddoedd |
| Ffitiadau a dodrefn | 5-10 o flynyddoedd |
| Technoleg Gwybodaeth | Hyd at 5 mlynedd |

Datgenir asedau dan adeiladwaith ar gost ac nid ydynt yn cael eu dibrisio nes eu bod wedi eu comisiynu.

## 1.4 Asedau Anniriaethol

Datgenir asedau anniriaethol ar gost llai amorteiddiad cronedig ac yn net o golledion amhariad cronedig fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae cost asedau anniriaethol yn cynnwys cost prynu ac unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol sy'n achlysurol i'w caffael. Mae asedau anniriaethol dan £2,000 yn cael eu hystyried i fod yn wariant refeniw a'u cydnabod yn llawn yn y flwyddyn y'u prynwyd.

Mae cost amorteiddiad asedau anniriaethol yn cael ei godi i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth pan fydd yr asedau ar gael i'w defnyddio er mwyn neilltuo symiau cludo'r asedau anniriaethol dros eu bywydau economaidd defnyddiol amcangyfrifiedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd | Oes trwydded |
| Technoleg Gwybodaeth | Hyd at 5 mlynedd |

## 1.5 Amhariad Asedau

Adolygir symiau cludo asedau anghyfredol y CNPA a'r holl asedau ariannol ar ddiwedd pob cyfnod adrodd i bennu a oes unrhyw awgrym o amhariad.

Cydnabyddir colled amhariad pan fydd swm cario ased neu uned sy'n cynhyrchu arian yn fwy na'r swm y gellir ei adfer. Swm adferadwy yw'r uchaf o werth teg cyflawnedig net a gwerth mewn defnydd. Wrth asesu gwerth mewn defnydd, mae'r llifoedd arian a amcangyfrifir yn y dyfodol wedi eu gostwng i'w gwerth presennol yn defnyddio cyfradd gostyngiad sy'n adlewyrchu'r asesiadau marchnad cyfredol o'r amser, gwerth am arian a'r risgiau i'r ased penodol. Ar gyfer ased nad yw'n cynhyrchu llifoedd arian annibynnol yn bennaf, pennir y swm adferadwy ar gyfer yr uned creu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

Cydnabyddir colledion amhariad yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae colledion amhariad a gydnabyddir parthed unedau creu arian yn cael eu dyrannu i leihau swm cario'r asedau yn yr uned ar sail pro rata.

Mae colled amhariad yn cael ei wyrdroi os cafwyd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm a adferwyd. Mae colled amhariad yn cael ei wyrdroi i'r fath raddau fel nad yw swm cario'r ased yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi ei bennu, net o unrhyw ddibrisiant neu amorteiddiad, os nad yw unrhyw golled amhariad wedi ei gydnabod.

## 1.6 Cydnabyddiaeth Incwm

Mesurir incwm ar werth teg yr ystyriaeth a dderbyniwyd neu dderbyniadwy ac mae hyn yn eithrio Treth ar Werth. Cydnabyddir incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fydd y CNPA wedi perfformio ei rwymedigaethau cytundebol, gellir mesur yr incwm yn ddibynadwy ac mae'n debygol y bydd y manteision economaidd o'r trafodyn yn llifo i'r CNPA. Ni chydnabyddir unrhyw incwm os oes ansicrwydd arwyddocaol parthed adfer yr ystyriaeth sy'n daladwy.

## 1.7 Trethiant

Nid yw'r CNPA wedi cofrestru ar gyfer TAW. Mae'r holl wariant a phryniannau asedau a ddangosir yn gynhwysol o TAW ac ni chodir TAW ar ei anfonebau gwerthiant.

Mae'r CNPA tu allan i gwmpas Treth Corfforaeth, gan ei fod yn rhan o gorff llywodraeth, ac nid yw wedi ei gofrestru ar gyfer Treth Gorfforaeth.

## 1.8 Buddiannau Gweithwyr

### Costau staff

Cydnabyddir costau staff fel gwariant unwaith y bydd angen i'r CNPA eu talu. Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw wyliau blynyddol na ddefnyddiwyd sy'n cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r CNPA yn cydnabod fel rhwymedigaeth gwerth gwyliau blynyddol sy'n cael ei gario ymlaen ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r CNPA yn ail godi ei gostau i'w gwsmeriaid ac yn cydnabod gwerth cyfartal derbyniadwy i'r rhwymedigaeth ar gyfer gwyliau blynyddol na ddefnyddiwyd.

### Costau pensiwn

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol wedi eu cynnwys dan ddarpariaeth Cynllun Pensiwn Cyfunol (CPS) Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig (UKAEA), sy'n gynllun pensiwn budd diffiniedig heb ei ariannu sy'n paratoi ei ddatganiadau cynllun ei hun. Mae'r CNPA yn cydnabod cost darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n cael buddion o wasanaeth cyflogeion trwy daliadau i'r CPS o symiau ar sail gronnus. Cynllun CPS sy'n gyfrifol am dalu buddion yn y dyfodol. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn nodyn 5.

## 1.9 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Amodol

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd yna rwymedigaeth bresennol, gyfreithiol neu adeiladol, o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i'r CNPA setlo'r rhwymedigaeth honno ac mae swm wedi ei amcangyfrif yn ddibynadwy.

Mesurir darpariaethau ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ac fe'i gostyngir i'r gwerth presennol ble fo'r effaith yn faterol.

Datgelir symiau fel rhwymedigaethau amodol ble mae'n debygol y bydd angen i'r CNPA dalu'r rhwymedigaeth ac nad yw'n gallu amcangyfrif y swm y ddibynadwy, neu ble mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r CNPA setlo'r rhwymedigaeth.

## 1.10 Cymorth Grant a Grantiau Cyfalaf

Mae cymorth grant a ddarperir gan y DECC yn cael ei drin fel cyllid a'i gredydu i'r gronfa gyllid oherwydd fe'i hystyrir yn gyfraniad gan barti rheoli sy'n arwain at fudd ariannol ym mudd dros ben y CNPA.

Mae grantiau cyfalaf ar gyfer prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar wedi eu credydu i incwm gohiriedig a'u rhyddhau i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr dros oes economaidd ddefnyddiol yr asedau mewn symiau sy'n gyfartal i'r tâl dibrisiant. Mae'r elw neu golled ar waredu asedau a ariennir gan grant yn cael ei gymryd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'i fantoli gan drosglwyddiad o incwm gohiriedig o'r un gyfran o'r elw neu golled y mae swm y grant yn darparu i gost wreiddiol yr ased. Mae'r balans yn yr incwm gohiriedig parthed yr ased wedi ei drosglwyddo i'r gronfa incwm a gwariant sy'n cynrychioli'r un gyfran o'r derbyniadau gwaredu.

## 1.11 Prydlesau Gweithredol

Codir taliadau rent ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Cydnabyddir unrhyw ysgogiadau i fynd i brydlesi gweithredol fel lleihad mewn gwariant rhent dros dymor y brydles ar sail linol.

## 1.12 Arian Tramor

Mae unrhyw arian a nodir mewn arian tramor wedi ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad pan fydd y trafodyn yn digwydd. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi eu trosi ar gyfradd y diwrnod hwnnw. Mae pob amrywiaeth yn y gyfradd gyfnewid wedi ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.13 Stocrestrau

Mae stocrestrau yn cynnwys dillad, ffrwydron ac eitemau ategol yn cynnwys cyfarpar amddiffynnol. Mae stocrestrau wedi eu prisio yn is na'r gost a gwerth sylweddoli net yn defnyddio fformwla cost gyfartalog. Gan fod stocrestrau wedi eu cynllunio i'w defnyddio, nid i'w gwerthu, defnyddir cost amnewid fel y mesur gorau o werth cludo. Ble fo angen, mae gwerthoedd stocrestrau yn cael eu haddasu ar gyfer eitemau darfodedig, araf a diffygiol.

## 1.14 Offerynnau Ariannol

### Arian parod a chyfatebol i arian parod
Mae arian a chyfwerth ag arian yn cynnwys arian yn y banc, sydd ar gael i'w dynnu allan ar unwaith.

### Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill
Mae derbynyddion masnach ac eraill yn cael eu mesur yn gyntaf ar werth teg ac yna eu mesur ac ar gost wedi amorteiddio llai unrhyw lwfans ar gyfer symiau y gellir eu hadfer.

### Masnach ac elfennau taladwy eraill
Mesurir taladwyon masnach ac eraill ar gost wedi amorteiddio, sy'n cyfateb i werth enwol.

### Incwm ariannol a chost ariannol
Cydnabyddir incwm a chostau ariannol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail croniadau.

## 1.15 Adrodd Segment

Nodir segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol am gydrannau o'r CNPA sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y prif benderfynydd gweithredol er mwyn dyrannu adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad. Mae gan y CNPA un segment adroddadwy: Unedau Plismona Gweithredol (OPUs). Mae'r unedau hyn yn darparu ymateb arfog mewn safleoedd niwclear trwyddedig. Mae perfformiad ariannol yr unedau hyn wedi eu cyfuno gan ei fod yn cwrdd â'r meini prawf cydgrynhoad a sefydlwyd yn IFRS 8.

## 2. Gwybodaeth Segment

Nodir segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol am gydrannau o'r CNPA sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y prif benderfynydd gweithredol er mwyn dyrannu adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad.

Mae gan y CNPA un segment adroddadwy: Unedau Plismona Gweithredol. Mae'r CNPA yn gweithredu 11 OPU gwahanol sy'n darparu gwasanaeth plismona i safleoedd niwclear trwyddedig. Mae perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol yr unedau hyn wedi eu cyfuno gan eu bod yn cwrdd â'r meini prawf cydgrynhoad a sefydlwyd yn IFRS 8. Mae polisïau cyfrifyddu'r segment adroddadwy'r un fath â pholisi cyfrifo'r CNPA yn nodyn 1.

Mae perfformiad ariannol pob segment anweithredol yn cynnwys swyddogaethau swyddfa gefn megis Adnoddau Dynol; Cyllid; Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; a swyddogaethau sy'n cefnogi gweithrediadau rheng flaen, megis Hyfforddiant Drylliau, Dysgu a Datblygu a Chefnogaeth Gweithrediadau. Mae pob segment anweithredol wedi eu grwpio dan y pennawd Adrannau Corfforaethol. Cynhwysir yr wybodaeth hon i gymodi perfformiad ariannol y segmentau gweithredol.

| 2014/15 | Gweithredol Unedau Plismona<br>£000 | Adrannau Corfforaethol<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | **93,367** | **-** | **93,367** |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | (57,259) | (14,041) | (71,300) |
| Gwariant arall | (6,930) | (14,032) | (20,962) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | (981) | (1,019) | (2,000) |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf | 590 | 248 | 838 |
| Symudiad mewn darpariaethau | - | (611) | (611) |
| **Gwarged /(diffyg) gweithredu** | **28,787** | **(29,455)** | **(668)** |
| | | | |
| Colledion o waredu eiddo, offer a chyfarpar | (6) | (3) | (9) |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn costau ariannol** | **28,781** | **(29,458)** | **(677)** |
| | | | |
| Incwm ariannol – llog derbyniadwy | - | 16 | 16 |
| Taliadau ariannol – llog sy'n daladwy | - | (16) | (16) |
| **Gwarged/(diffyg) a gadwyd ar gyfer y flwyddyn** | **28,781** | **(29,458)** | **(677)** |
| | | | |
| **Asedau a rhwymedigaethau** | | | |
| Asedau segment | 4,334 | 23,216 | 27,550 |
| Rhwymedigaethau segment | (5,893) | (7,610) | (13,503) |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | **(1,559)** | **15,606** | **14,047** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn | (5,494) | - | (5,494) |
| Cyllido wrth gefn | - | 19,541 | 19,541 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | **(5,494)** | **19,541** | **14,047** |

| 2013/14 | Gweithredol Unedau Plismona £000 | Adrannau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | **87,750** | **-** | **87,750** |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | (54,971) | (12,771) | (67,742) |
| Gwariant arall | (7,434) | (11,907) | (19,341) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | (890) | (880) | (1,770) |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf | 482 | 63 | 545 |
| Symudiad mewn darpariaethau | - | (640) | (640) |
| **Gwarged /(diffyg) gweithredu** | **24,937** | **(26,135)** | **(1,198)** |
| | | | |
| Colledion o waredu eiddo, offer a chyfarpar | (62) | (5) | (67) |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn costau ariannol** | **24,875** | **(26,140)** | **(1,265)** |
| | | | |
| Incwm ariannol – llog derbyniadwy | - | 16 | 16 |
| Taliadau ariannol – llog sy'n daladwy | - | (16) | (16) |
| **Gwarged/(diffyg) a gadwyd ar gyfer y flwyddyn** | **24,875** | **(26,140)** | **(1,265)** |
| | | | |
| **Asedau a rhwymedigaethau** | | | |
| Asedau segment | 4,072 | 24,383 | 28,455 |
| Rhwymedigaethau segment | (5,733) | (8,388) | (14,121) |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | **(1,661)** | **15,995** | **14,334** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn | (4,817) | - | (4,817) |
| Cyllido wrth gefn | - | 19,151 | 19,151 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | **(4,817)** | **19,151** | **14,334** |

## Ardaloedd daearyddol

Deilliodd yr holl incwm gan gwsmeriaid allanol yn gyfan gwbl o'r Deyrnas Unedig ac mae'r holl asedau anghyfredol wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig.

## Prif gwsmeriaid

Mae'r CNPA yn ddibynnol o ran incwm ar nifer bychan o Gwmnïau Trwyddedau Safle (SLCs) am gyfran arwyddocaol o'i incwm. Roedd trafodion gyda thri SLC (2013/14: tri SLC) pob un yn atebol am 10% neu fwy o gyfanswm incwm y CNPA. Adroddir ar yr incwm hwn o fewn segment weithredu'r OPUs. Rhoddir dadansoddiad o incwm gan y prif gwsmeriaid isod:

| | 2014/15 | | 2013/14 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| SLC 1 | 32,930 | 35 | 31,716 | 36 |
| SLC 2 | 32,170 | 34 | 24,542 | 28 |
| SLC 3 | 13,107 | 14 | 11,883 | 14 |
| Eraill | 15,160 | 17 | 19,609 | 22 |
| **Cyfanswm** | **93,367** | **100** | **87,750** | **100** |

# 3. Incwm

Gofynnir i'r CNPA adfer ei gostau gweithredu yn llawn bob blwyddyn. Incwm o £93,367,000 ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2015 (2013/14: £87,750,000) yn cynrychioli ailgodi costau rhedeg i SLCs o £92,633,000 (2013/14: £87,614,000) ac incwm amrywiol o £734,000 (2013/14: £136,000). Mae'r holl weithgareddau wedi eu hystyried fel parhaus.

# 4. Niferoedd staff a Chostau Cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

| 2014/15 | Staff a gyflogir yn barhaol | Gweithwyr dros dro ac asiantaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau a thâl | 56,464 | 1,520 | 57,984 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 5,280 | 147 | 5,427 |
| Costau pensiwn eraill | 7,626 | 169 | 7,795 |
| Staff asiantaeth | - | 94 | 94 |
| **Isgyfanswm** | **69,370** | **1,930** | **71,300** |
| Llai costau a adenillwyd yng nghyswllt secondiadau allanol | (67) | - | (67) |
| **Cyfanswm costau staff** | **69,303** | **1,930** | **71,233** |

| 2013/14 | Staff a gyflogir yn barhaol | Gweithwyr dros dro ac asiantaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau a thâl | 53,489 | 1,855 | 55,344 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,829 | 163 | 4,992 |
| Costau pensiwn eraill | 7,149 | 237 | 7,386 |
| Staff asiantaeth | - | 20 | 20 |
| **Isgyfanswm** | **65,467** | **2,275** | **67,742** |
| Llai costau a adenillwyd yng nghyswllt secondiadau allanol | (12) | - | (12) |
| **Cyfanswm costau staff** | **65,455** | **2,275** | **67,730** |

## Cyfartaledd nifer o bobl a gyflogir

Cyfartaledd nifer yr unigolion yn cyfateb i amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| 2014/15 | Staff a gyflogir yn barhaol | Gweithwyr dros dro ac asiantaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyfartaledd niferoedd staff | 1,446 | 38 | 1,484 |

| 2013/14 | Staff a gyflogir yn barhaol | Gweithwyr dros dro ac asiantaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyfartaledd niferoedd staff | 1,322 | 59 | 1,381 |

## Pecynnau gadael

| 2014/15 | Nifer o becynnau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| Llai na £9,999 | - | 1 | 1 |
| £10,000 - £24,999 | - | 1 | 1 |
| £25,000 - £49,999 | 1 | - | 1 |
| £100,000 - £149,999 | - | 5 | 5 |
| **Cyfanswm pecynnau ymadael** | **1** | **7** | **8** |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm gwerth pecynnau ymadael** | **43** | **694** | **737** |

| 2013/14 | Nifer o becynnau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| £10,000 - £24,999 | 12 | - | 12 |
| £25,000 - £49,999 | 6 | - | 6 |
| £50,000 - £99,999 | 2 | - | 2 |
| £200,000 - £249,999 | 2 | - | 2 |
| £250,000 - £299,999 | 2 | - | 2 |
| **Cyfanswm pecynnau ymadael** | **24** | **-** | **24** |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm gwerth pecynnau ymadael** | **1,520** | **-** | **1,520** |

Talwyd costau diswyddo a chostau gadael eraill yn unol â darpariaethau amodau a thelerau'r CNPA. Mae'r costau pecyn gadael yn cael eu cyfrif yn llawn yn y flwyddyn gadael. Pan fydd y CNPA wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol ganddo ac nid gan gynllun pensiwn CPS yr UKAEA. Mae costau ymddeol oherwydd salwch yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl uchod.

# 5. Costau Pensiwn

Mae holl gyflogeion y CNPA yn gymwys i fod yn aelodau o CPS yr UKAEA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Mae'r CPS yn gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus budd diffiniedig statudol heb ei ariannu cyfrannog.

Rheolir a gweinyddir y cynllun gan Aon Hewitt Limited gyda chymeradwyaeth yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau. Defnyddir cyfraniadau a wneir i'r cynllun i dalu am fuddion y cynllun. Fe ildir unrhyw warged o gyfraniadau dros daliadau i Lywodraeth EM trwy'r Gronfa Gyfunol. Bodlonir unrhyw ddiffyg gan Bleidlais Seneddol gyda thaliad o'r Gronfa Gyfunol. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnal cronfa ar wahân i ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun yn y dyfodol a bydd buddion yn y dyfodol yn cael eu talu allan o'r Gronfa Gyfunol i'w fath raddau ag y bydd buddion, ar adeg y taliadau, yn rhagori ar gyfraniadau a bydd y Senedd yn pleidleisio ar gyfer y cronfeydd angenrheidiol.

Yn effeithiol o 1 Ebrill 2006, mae'r fethodoleg i asesu cyfraniadau'r cyflogwr i'r CPS wedi newid. O'r dyddiad hwnnw, sefydlir cyfraniadau'r yn defnyddio'r fethodoleg Cyfraniadau Blwydd-dal wedi eu Haddasu ar gyfer Profiad Blaenorol (SCAPE) a sefydlwyd gan Drysorlys EM wedi ystyried cyngor actwari'r cynllun (Actwari'r Llywodraeth). Dan y fethodoleg SCAPE, sefydlwyd cyfraniad y cyflogwr o'r CNPA yn effeithiol o 1 Ebrill 2006 ar 16.2% o enillion pensiynadwy. Disgwylir i'r gyfradd hon barhau trwy gydol blwyddyn cynllun 2015/16.

Mae cyflogeion CNPA hefyd yn cymryd rhan yng Nghynllun Cyfraniad Gwirfoddol (AVC) Atodol yr UKAEA a Chyflogwyr Cyfrannog sy'n drefniant cyfraniad diffiniedig. Nid oes cyfraniad gan gyflogwyr i'r trefniant hwn. Mae'r cynllun wedi ei yswirio'n llawn a'i weinyddu gan y Prudential Assurance Company Limited y telir cyfraniadau iddo. Mae'r cynllun AVC yn cynnwys y cyflogeion hynny i'r CNPA, a chyflogwyr eraill, sy'n aelodau o'r CPS ac sydd wedi dewis talu cyfraniadau gwirfoddol atodol.

# 6. Gwariant Arall

| | Nodiadau | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Nwyddau a gwasanaethau** | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | | 5,507 | 5,055 |
| Gwasanaethau ymgynghorol | | 150 | 76 |
| Costau hyfforddiant a datblygiad | | 786 | 745 |
| Gwasanaethau proffesiynol eraill | | 1,144 | 693 |
| Ffioedd cyfreithiol | | 410 | 268 |
| Yswiriant | | 531 | 398 |
| Rheoleiddiol a sicrwydd | | 309 | 299 |
| Ffioedd archwilio | | 42 | 42 |
| Costau sy'n gysylltiedig â phersonél | | 877 | 972 |
| Marchnata a chostau cysylltiedig â'r cyfryngau | | 91 | 163 |
| Llety a gwasanaethau rheoli adeiladau | | 1,181 | 1,094 |
| Gwasanaethau a reolir ac a rennir | | 2,729 | 2,399 |
| Costau telathrebu a radio | | 1,108 | 1,072 |
| Nwyddau a gwasanaethau TGCh | | 343 | 412 |
| Nwyddau a gwasanaethau drylliau | | 2,222 | 2,201 |
| Costau ynni, gwasanaethau a rheoli gwastraff | | 612 | 584 |
| Cynnal a chadw cerbydau | | 218 | 248 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau eraill | | 2,189 | 2,052 |
| Rhent o dan brydlesau gweithredol – adeiladau | | 338 | 338 |
| Rhent o dan brydlesau gweithredol – cyfarpar swyddfa | | 47 | 45 |
| Colled ar waredu stocrestrau | | 66 | 81 |
| **Cyfanswm nwyddau a gwasanaethau a brynwyd** | | **20,900** | **19,237** |
| **Taliadau gweithredu eraill** | | **62** | **104** |
| **Eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | 7 | 1,723 | 1,586 |
| Dirywiad asedau anghyffwrddadwy | 8 | 277 | 184 |
| Grant cyfalaf a ryddhawyd | | (838) | (545) |
| Symudiad mewn darpariaethau | 14 | 543 | 531 |
| Dadweindio disgownt ar ddarpariaethau | 14 | 68 | 109 |
| **Cyfanswm eitemau anariannol** | | **1,773** | **1,865** |
| | | **22,735** | **21,206** |

# 7. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Cyfarpar cludiant | Offer a pheiriannau | Ffitiadau a dodrefn | Technoleg Gwybodaeth | Taliadau ar gyfrif ac asedau ar waith | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 3,759 | 4,468 | 576 | 2,702 | 1,226 | **12,731** |
| Ychwanegiadau | 258 | 504 | 40 | 50 | 986 | **1,838** |
| Gwarediadau | (227) | (86) | (10) | (195) | - | **(518)** |
| Ailddosbarthiadau | 10 | 676 | (12) | 47 | (1,190) | **(469)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **3,800** | **5,562** | **594** | **2,604** | **1,022** | **13,582** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 1,767 | 2,042 | 320 | 1,889 | - | **6,018** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 634 | 633 | 45 | 411 | - | **1,723** |
| Gwarediadau | (227) | (78) | (7) | (195) | - | **(507)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **2,174** | **2,597** | **358** | **2,105** | **-** | **7,234** |
| | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **1,626** | **2,965** | **236** | **499** | **1,022** | **6,348** |
| | | | | | | |
| **Ariannu asedau** | | | | | | |
| Yn berchen | 1,626 | 2,965 | 236 | 499 | 1,022 | **6,348** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **1,626** | **2,965** | **236** | **499** | **1,022** | **6,348** |

| | Cyfarpar cludiant | Offer a pheiriannau | Ffitiadau a dodrefn | Technoleg Gwybodaeth | Taliadau ar gyfrif ac asedau ar waith | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 3,990 | 4,225 | 523 | 2,598 | 355 | **11,691** |
| Ychwanegiadau | 765 | 249 | 53 | 67 | 927 | **2,061** |
| Gwarediadau | (996) | (6) | - | (10) | - | **(1,012)** |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | 47 | (56) | **(9)** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **3,759** | **4,468** | **576** | **2,702** | **1,226** | **12,731** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 2,052 | 1,510 | 283 | 1,515 | - | **5,360** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 627 | 538 | 37 | 384 | - | **1,586** |
| Gwarediadau | (912) | (6) | - | (10) | - | **(928)** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **1,767** | **2,042** | **320** | **1,889** | **-** | **6,018** |
| | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **1,992** | **2,426** | **256** | **813** | **1,226** | **6,713** |
| | | | | | | |
| **Ariannu asedau** | | | | | | |
| Yn berchen | 1,992 | 2,426 | 256 | 813 | 1,226 | **6,713** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **1,992** | **2,426** | **256** | **813** | **1,226** | **6,713** |

Mae taliad ar gyfrif ac asedau ar waith yn cynrychioli asedau nad ydynt yn gyflawn neu nad ydynt mewn defnydd cynhyrchiol gan y CNPA eto. Ar 31 Mawrth 2015 roedd hyn yn cyfateb i £877,000 ar gyfer cerbydau (2013/14: £dim) a £96,000 ar gyfer cyfarpar technoleg gwybodaeth (2013/14: £540,000) a £49,000 ar gyfer cyfarpar ystafell reoli'r heddlu (2013/14: £dim).

# 8. Asedau Anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £000 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 389 | 741 | 1,130 |
| Ychwanegiadau | 96 | 2 | 98 |
| Gwarediadau | - | (10) | (10) |
| Ailddosbarthiadau | 23 | 446 | 469 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **508** | **1,179** | **1,687** |
| | | | |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 276 | 520 | 796 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 100 | 177 | 277 |
| Gwarediadau | - | (10) | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **376** | **687** | **1,063** |
| | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **132** | **492** | **624** |
| | | | |
| **Ariannu asedau** | | | |
| Yn berchen | 132 | 492 | 624 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015** | **132** | **492** | **624** |

| | Trwyddedau meddalwedd £000 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 389 | 732 | 1,121 |
| Ailddosbarthiadau | - | 9 | 9 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **389** | **741** | **1,130** |
| | | | |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 180 | 432 | 612 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 96 | 88 | 184 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **276** | **520** | **796** |
| | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **113** | **221** | **334** |
| | | | |
| **Ariannu asedau** | | | |
| Yn berchen | 113 | 221 | 334 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **113** | **221** | **334** |

## Tâl amorteiddiad

Cydnabyddir tâl amorteiddiad mewn gwariant arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

# 9. Offerynnau Ariannol

Mae gan y CNPA amlygiad i'r risgiau canlynol o'i ddefnydd o offerynnau ariannol:

- Risg credyd;
- Risg dirwyn i ben; a
- Risg marchnad.

Mae'r nodyn hwn yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn ag amlygiad y CNPA i bob un o'r risgiau uchod a'i amcanion, polisïau a phrosesau ar gyfer mesur a rheolir risg. Mae gan Fwrdd y CNPA gyfrifoldeb cyffredinol am sefydlu a goruchwylio fframwaith rheoli risg y CNPA. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Llywodraethu yn goruchwylio sut mae rheolwyr yn monitro cydymffurfiad â pholisïau a gweithdrefnau rheoli risg y CNPA ac yn adolygu digonolrwydd y fframwaith rheoli risg parthed y risgiau mae'r CNPA yn wynebu.

## Risg credyd

Risg credyd yw'r risg o golledion ariannol i'r CNPA os yw cwsmer neu gwrthbarti i offeryn ariannol yn methu bodloni ei rwymedigaethau cytundebol ac yn deillio o falansau dyledwyr ac arian y CNPA a gedwir mewn banc masnachol.

### Amlygiad i risg credyd

Mae swm cludo asedau ariannol yn cynrychioli uchafswm yr amlygiad credyd. Uchafswm yr amlygiad i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd oedd:

| Benthyciadau a derbynyddion eraill | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm derbynyddion (ac eithrio rhagdaliadau) | 14,030 | 10,018 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 4,776 | 9,603 |
| | **18,806** | **19,621** |

Roedd risg credyd ar gyfer eitemau derbyniadwy ar y dyddiad adrodd yn gyfan gwbl yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig. Mae amlygiad y CNPA wedi ei grynhoi ymysg nifer fechan o gwsmeriaid. Ni chedwir unrhyw sicrwydd cyfochrog na gwelliannau credyd eraill fel sicrwydd dros natur adferadwy'r balansau hyn. Mae'r CNPA yn disgwyl adfer ei falansau derbyniadwy yn llawn oherwydd hanesion talu blaenorol a graddau credyd uchel ei gwsmeriaid. Cedwir balansau arian parod mewn cyfrifon cyfradd sefydlog tymor byr, gyda graddiad uchel gyda'r Royal Bank of Scotland Plc (RBS).

Sefydlir dadansoddiad o gyfanswm elfennau derbyniadwy (ac eithrio rhagdaliadau) yn cynnwys y rhai sy'n hwyr ond heb eu hamharu isod:

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nid yn hwyr | 10,731 | 10,013 |
| Llai nag 1 mis yn hwyr | 3,286 | 5 |
| Rhwng 1 a 2 fis | 13 | - |
| | **14,030** | **10,018** |

Ni ystyriwyd bod unrhyw falansau derbyniadwy wedi eu hamharu ar ddiwedd y cyfnod adrodd (2013/14: £dim). Nid oes unrhyw elfennau derbyniadwy a fyddai fel arall yn hwyr neu wedi eu hamharu y mae eu termau wedi eu hail drafod (2013/14: £dim).

## Risg dirwyn i ben

Risg dirwyn i ben yw'r risg na fydd y CNPA yn gallu bodloni ei rwymedigaethau ariannol pan fyddant yn ddyledus. Mae'r canlynol yn aeddfedrwydd cytundebol rhwymedigaethau ariannol ar ddiwedd y cyfnod adrodd:

| Ar 31 Mawrth 2015 | O fewn 1 mis | Rhwng 1 a 3 mis | Rhwng 3 a 12 mis | Cyfanswm aeddfedrwydd cytundebol |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Taladwyon masnach | 251 | - | - | 251 |
| Costau cronnus | - | 5,028 | - | 5,028 |
| Taladwyon eraill | 1,056 | - | - | 1,056 |
| | **1,307** | **5,028** | **-** | **6,335** |

| Ar 31 Mawrth 2014 | O fewn 1 mis | Rhwng 1 a 3 mis | Rhwng 3 a 12 mis | Cyfanswm aeddfedrwydd cytundebol |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Taladwyon masnach | 441 | - | - | 441 |
| Costau cronnus | - | 4,920 | - | 4,920 |
| Taladwyon eraill | 971 | - | - | 971 |
| | **1,412** | **4,920** | **-** | **6,332** |

Darparodd y cyn Adran Masnach a Diwydiant (DTI) gyfalaf gweithredol o £6miliwn pan sefydlwyd y CNPA. Defnyddir hyn i ariannu gwahaniaethau amser rhwng derbynion gan gwsmeriaid a thaliadau i gredydwyr. Yn ogystal, mae gan y CNPA gyfleuster gorddrafft o £1 miliwn gyda'r RBS, sy'n ad-daladwy ar alw, ac a ddefnyddir i fodloni gofynion cyfalaf byr dymor. Ni ddefnyddiwyd y cyfleuster hwn yn ystod y cyfnod adrodd.

## Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg y bydd newidiadau mewn prisiau marchnad, megis cyfraddau llog, yn effeithio ar incwm y CNPA neu werth ei ddaliadau o offerynnau ariannol. Mae risg marchnad yn cynnwys risg arian cyfredol, risg cyfradd llog a risg prisiau eraill. Disgrifir amlygiad y CNPA i'r cydrannau hyn o risg y farchnad isod:

### Risg arian tramor

Mae'r risg arian tramor i'r CNPA yn finimol gan mai ychydig iawn o fasnachu a wneir ac eithrio mewn sterling ac mae pob anfoneb gwerthiant wedi ei gyflwyno mewn sterling. Cedwir pob ased a rhwymedigaeth ariannol faterol mewn sterling, felly nid yw'r CNPA wedi ei amlygu i risg arian tramor.

### Risg cyfradd llog

Roedd yr holl falansau arian parod yn bositif yn ystod y cyfnod adrodd ac wedi eu cadw mewn cyfrifon cyfradd sefydlog tymor byr gyda graddiad uchel. Nid oedd gan y CNPA unrhyw risg cyfradd llog arwyddocaol.

### Risg pris arall

Nid oedd gan y CNPA unrhyw risg pris arall arwyddocaol.

## Swm cario a gwerth teg asedau a rhwymedigaethau ariannol

Cyflwynir dadansoddiad o'r gwerth cario a'r gwerthoedd teg ar 31 Mawrth, yn ôl categori ac yn ôl dosbarth, o asedau a rhwymedigaethau ariannol isod:

| Ar 31 Mawrth 2015 | Benthyciadau a derbynyddion £000 | Rhwymedigaethau ariannol eraill £000 | Cyfanswm cario £000 | Cyfanswm gwerth teg £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Derbynion masnach | 11,660 | - | 11,660 | 11,660 |
| Derbynion gadael yn gynnar | 826 | - | 826 | 826 |
| Derbynion eraill | 734 | - | 734 | 734 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 4,776 | - | 4,776 | 4,776 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| Taladwyon masnach | - | (251) | (251) | (251) |
| Costau cronnus | - | (5,028) | (5,028) | (5,028) |
| Taladwyon eraill | - | (1,056) | (1,056) | (1,056) |
| | **17,996** | **(6,335)** | **11,661** | **11,661** |

| Ar 31 Mawrth 2014 | Benthyciadau a derbynyddion £000 | Rhwymedigaethau ariannol eraill £000 | Cyfanswm cario £000 | Cyfanswm gwerth teg £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Derbynion masnach | 8,276 | - | 8,276 | 8,276 |
| Derbynion gadael yn gynnar | 607 | - | 607 | 607 |
| Derbynion eraill | 1,135 | - | 1,135 | 1,135 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9,603 | - | 9,603 | 9,603 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| Taladwyon masnach | - | (441) | (441) | (441) |
| Costau cronnus | - | (4,920) | (4,920) | (4,920) |
| Taladwyon eraill | - | (971) | (971) | (971) |
| | **19,621** | **(6,332)** | **13,289** | **13,289** |

## Amcangyfrif o werthoedd teg

### Derbynion masnach, incwm a gronnir ac elfennau derbyniadwy/taladwy eraill a chostau a gronnwyd

Tybir gwerthoedd cario masnach a derbynion eraill a thaladwyon masnach ac eraill ac incwm a gronnwyd a chostau a gronnwyd i amcangyfrif eu gwerth teg oherwydd eu natur byrdymor.

### Derbynion gadael yn gynnar

Mae swm cludo'r ased hwn yn amcangyfrif o'i werth teg.

### Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae swm cludo'r ased hwn yn amcangyfrif o'i werth teg.

# 10. Stocrestrau

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| Dillad | 87 | 186 |
| Ffrwydron | 1,345 | 1,107 |
| Eitemau stocrestr eraill | 80 | 226 |
| | **1,512** | **1,519** |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd £66,000 (2013/14: £81,000) o eitemau darfodedig, araf neu ddiffygiol eu dileu o'r stocrestr.

# 11. Derbynion Masnach ac Asedau Eraill

## 11(a) Dadansoddiad yn ôl math

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Derbynion masnach | 11,660 | 8,276 |
| Derbynion gadael yn gynnar yn ddyledus o'r cynllun pensiwn | 137 | 99 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,070 | 268 |
| Derbynion eraill | 684 | 1,080 |
| | **13,551** | **9,723** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Derbynion gadael yn gynnar yn ddyledus o'r cynllun pensiwn | 689 | 508 |
| Derbynion eraill | 50 | 55 |
| | **739** | **563** |

## 11(b) Balansau rhyng-llywodraeth

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 6,343 | 5,013 |
| Balansau a chorfforaethau cyhoeddus gyda chronfeydd masnachu | 538 | 1,048 |
| Gweddillion gydag awdurdodau lleol | 12 | - |
| Gweddill o fewn llywodraeth | 6,893 | 6,061 |
| Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 6,658 | 3,662 |
| **Cyfanswm derbynion ar 31 Mawrth** | **13,551** | **9,723** |
| | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi un flwyddyn:** | | |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 689 | 508 |
| Gweddill o fewn llywodraeth | 689 | 508 |
| Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 50 | 55 |
| **Cyfanswm derbynion ar 31 Mawrth** | **739** | **563** |

# 12. Arian a Chyfwerth ag Arian

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 9,603 | 8,527 |
| Newidiad net mewn arian a chyfatebol i arian parod | (4,827) | 1,076 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **4,776** | **9,603** |

Roedd y gweddillion canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Banc masnachol | 4,776 | 9,603 |
| | **4,776** | **9,603** |

# 13. Taladwyon Masnach a Rhwymedigaethau Cyfredol Eraill

## 13(a) Dadansoddiad yn ôl math

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Taladwyon masnach | 251 | 441 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 1,515 | 1,935 |
| Costau cronnus | 5,028 | 4,920 |
| Incwm gohiriedig | 659 | 898 |
| Taladwyon eraill | 1,056 | 971 |
| | **8,509** | **9,165** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Incwm gohiriedig | 2,283 | 2,163 |
| | **2,283** | **2,163** |

## 13(b) Balansau rhyng-llywodraeth

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 3,831 | 3,898 |
| Balansau a chorfforaethau cyhoeddus gyda chronfeydd masnachu | 204 | 65 |
| Gweddillion gydag awdurdodau lleol | 229 | 102 |
| Gweddill o fewn llywodraeth | 4,264 | 4,065 |
| Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 4,245 | 5,100 |
| **Cyfanswm taladwyon ar 31 Mawrth** | **8,509** | **9,165** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi un flwyddyn:** | | |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 1,573 | 1,541 |
| Balansau a chorfforaethau cyhoeddus gyda chronfeydd masnachu | 220 | 209 |
| Gweddill o fewn llywodraeth | 1,793 | 1,750 |
| Balansau gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 490 | 413 |
| **Cyfanswm taladwyon ar 31 Mawrth** | **2,283** | **2,163** |

# 14 Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Cyfreithiol | Dadfeiliadau | Costau gadael yn gynnar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 60 | 208 | 4,158 | **4,426** |
| A ddarparwyd yn y flwyddyn | 947 | 35 | - | **982** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (88) | - | (2,184) | **(2,272)** |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen wedi'u hysgrifennu'n ôl | (2) | - | (450) | **(452)** |
| Dadweindio disgownt | - | - | 109 | **109** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **917** | **243** | **1,633** | **2,793** |
| A ddarparwyd yn y flwyddyn | 556 | - | 378 | **934** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (416) | - | (277) | **(693)** |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen wedi'u hysgrifennu'n ôl | (391) | - | - | **(391)** |
| Dadweindio disgownt | - | - | 68 | **68** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **666** | **243** | **1,802** | **2,711** |
| | | | | |
| **Amseriadau disgwyliedig o lifoedd arian parod** | | | | |
| O fewn blwyddyn | 666 | - | 316 | **982** |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | - | 817 | **817** |
| Ar ôl pum mlynedd | - | 243 | 669 | **912** |
| | **666** | **243** | **1,802** | **2,711** |

## Cyfreithiol

O'r ddwy ddarpariaeth oedd yn agored ar 1 Ebrill 2014 i setlo hawliadau yn dilyn dyfarniadau mewn dau dribiwnlys cyflogaeth a ganfu yn erbyn y CNPA, mae un wedi ei setlo yn cynnwys trosglwyddo £329,000 i'r ddarpariaeth cost gadael yn gynnar, mae'r ddarpariaeth arall yn dal yn agored. Mae'r ddarpariaeth wedi ei hamcangyfrif ar sail colledion ariannol posibl ac anaf i deimladau a ddioddefwyd gan hawlwyr llwyddiannus.

Gwnaethpwyd darpariaeth bellach ar gyfer saith hawliad llai o hyd at £10,000 yr un. O'r pedwar hawliad oedd yn agored ar 1 Ebrill 2014, nid yw'r ddarpariaeth wedi newid ar gyfer un ac mae'r tri sy'n weddill wedi eu defnyddio neu nodi yn ôl yn ystod y cyfnod adrodd.

## Dadfeiliadau

Mae gan y CNPA ddyletswydd gyfreithiol i adfer yr eiddo mae'n meddiannu dan brydles i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd tymor y brydles. Gwnaethpwyd addasiadau arwyddocaol i swyddfeydd prydles ym mhencadlys y Gwnstabliaeth yn Culham. Amcangyfrifwyd cost adfer yr eiddo gan sefydliad arbenigol allanol ac mae'n cynnwys TAW. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio yn 2021/22 pan ddaw tymor y brydles i ben.

## Costau gadael yn gynnar

Gwnaethpwyd y ddarpariaeth hon i dalu taliadau pensiwn i gyn gyflogeion sydd wedi ymddeol yn gynnar. Gwneir taliadau hyd at y dyddiad pan fydd y cyflogai yn cyrraedd oed ymddeol arferol o 60, ac wedi hynny bydd costau pensiwn y cyflogai yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn. Gwneir taliadau o'r cynllun pensiwn wedi 60 oed am gyfartaledd o 22 o flynyddoedd i dalu am elfennau heb eu gwella'r pensiynau hyn. Mae taliadau pensiwn wedi eu mynegeio yn unol â rheolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor Swyddogol ar Bensiynau Galwedigaethol; hynny yw, mae taliadau pensiwn yn cael eu mynegeio yn flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) i'r Medi blaenorol. Cymerwyd rhagolwg o'r CPI o'r Adroddiad Cyllideb a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015 gan Drysorlys EM. Mae taliadau pensiwn i 60 oed wedi eu gostwng yn defnyddio cyfraddau gostyngedig yn seiliedig ar y CPI cyffredinol a gostyngiad real o 1.3%. Mae taliadau wedi 60 oed wedi eu gostwng yn defnyddio'r gyfradd ostyngiad real o 1.3%.

# 15. Ecwiti'r Trethdalwyr

## Cysoniad o symudiad i ecwiti trethdalwyr

| | Incwm a gwariant wrth gefn | Cyllido wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2013 | (3,552) | 15,850 | 12,298 |
| Cymorth grant a dderbyniwyd | - | 3,151 | 3,151 |
| Cyfraniadau cyllido eraill | - | 150 | 150 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | (1,265) | - | (1,265) |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **(4,817)** | **19,151** | **14,334** |
| Cymorth grant a dderbyniwyd | - | 277 | 277 |
| Cyfraniadau cyllido eraill | - | 113 | 113 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | (677) | - | (677) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(5,494)** | **19,541** | **14,047** |

## Incwm a gwariant wrth gefn

Mae'r incwm a gwariant wrth gefn yn dangos gwargedion a diffygion a gronnwyd. Mae'n ofynnol i'r CNPA adfer ei gostau gweithredu llawn bob blwyddyn trwy daliadau i gwsmeriaid y mae'n darparu gwasanaeth iddynt. Mae'r diffyg o £5,494,000 (2013/14: £4,817,000) oherwydd darparu costau gadael cynnar ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn AFO a staff yr heddlu wedi tynnu allan o OPUs Springfields, Capenhurst a Chapelcross a thaliadau iawndal yn dilyn dau dribiwnlys cyflogaeth a ganfu yn erbyn y CNPA. Ni ystyrir bod y costau hyn yn gostau gweithredol ac felly ni ellir eu codi yn ôl ar gwsmeriaid y CNPA. Byddant yn cael eu talu'n llawn gan y DECC, trwy gyllid grant, pan ac os byddant yn ddyledus i'w talu ac yn cael eu cydnabod gan y CNPA ar sail arian parod yn y flwyddyn pan dderbynnir y taliad.

## Cyllido wrth gefn

Mae'r cyllido wrth gefn yn ymwneud â chymorth grant a ddarparir gan adran nawdd y CNPA. Mae wedi ei gredydu i'r gronfa gyllid gan y'i hystyrir i fod yn gyfraniad oddi wrth barti rheoli sy'n achosi buddiannau ariannol yn llog dros ben y CNPA. Roedd cyfraniadau cyllido eraill yn cynnwys £16,000 (2013/14: £16,000) o log a enillwyd ar gyfrifon banc y CNPA a £97,000 (2013/14: £134,000) o daliadau a wnaethpwyd i gwmnïau gweithredu i ariannu pryniannau o eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae cyfraniadau cyllido eraill yn daladwy i'r DECC a, thrwy gytundeb â'r DECC, wedi eu cynnwys mewn cyllid.

# 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd ymrwymiadau cyfalaf cytundebol ar 31 Mawrth 2015 nad oeddynt wedi eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn yn cynnwys:

| | 2014/15<br>£000 | 2013/14<br>£000 |
|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 1,024 | 379 |
| Asedau anniriaethol | 38 | - |
| | **1,062** | **379** |

# 17. Ymrwymiadau o Dan Brydlesi Gweithredol

Mae'r CNPA yn prydlesu llety swyddfa a chyfarpar swyddfa dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo. Mae gan y prydlesi dymhorau amrywiol, cymalau estyniad a hawliau adnewyddu. Dangosir y tymhorau prydles cyffredinol isod:

| | |
|---|---|
| Llety swyddfa | 15 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 3 - 4 oed |

Yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2015, cydnabuwyd £386,000 (2013/14: £383,000) fel gwariant parthed prydlesi gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Cyflwynir cyfanswm isafswm taliadau prydles dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo isod:

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles** | | |
| Llai nag un flwyddyn | 338 | 338 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 113 | 451 |
| | **451** | **789** |

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Cyfarpar swyddfa prydles** | | |
| Llai nag un flwyddyn | 12 | 45 |
| Rhwng un a phum mlynedd | - | 11 |
| | **12** | **56** |

# 18. Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae'r CNPA wedi sefydlu contractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi na'n gontractau Mentrau Cyllid Preifat) ar gyfer mynediad i'r rhwydwaith gyfathrebu Airwave ac ar gyfer contractau rhentu a thrwyddedu ar gyfer eiddo busnes. Mae'r taliadau y mae'r CNPA wedi ymrwymo iddynt fel a ganlyn:

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| Llai nag un flwyddyn | 929 | 952 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 2,664 | 4,092 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **3,593** | **5,044** |

# 19. Rhwymedigaethau Digwyddol

Mae yna nifer o rwymedigaethau posibl parthed hawliadau gan gyflogeion, sy'n dibynnu ar wir enillion neu enillion posibl. Nid oes sicrwydd ynghylch amseriad na swm unrhyw daliadau. Ni ddarparwyd ar gyfer y rhwymedigaethau gan nad yw'r CNPA yn credu bod yr hawliadau yn debygol o fod yn llwyddiannus ac mae'n annhebygol o arwain at drosglwyddo buddion economaidd.

# 20. Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015.

## 21. Trafodion â Phartïon Cysylltiedig

Mae'r CNPA yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o'r DECC. Ystyrir y DECC i fod yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r CNPA wedi cael amrywiol drafodion materol gyda'r DECC a gyda'r sefydliadau canlynol y mae'r DECC yn cael ei ystyried i fod yn adran rhiant ohono:

- International Nuclear Services Ltd; fel is-gwmni i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear;
- Dounreay Site Restoration Site Limited (DSRL);
- Research Site Restoration Limited (RSRL);
- Sellafield Limited; a
- Magnox Limited.

Yn ogystal, mae'r CNPA wedi cael nifer o drafodion materol gydag adrannau llywodraeth eraill a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda:

- Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig;
- Cynllun Pensiwn Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig;
- Y Swyddfa dros Reoli Niwclear; ac
- Y Swyddfa Gartref.

Nid oes unrhyw aelod o Fwrdd y CNPA, rheolwr allweddol na phartïon eraill cysylltiedig wedi cyflawni unrhyw drafodion materol gyda'r CNPA yn ystod y flwyddyn.

## 22. Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy wedi'r cyfnod adrodd. Cafodd y cyfrifon hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 17 Mehefin 2015, y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 23. Cyfarwyddyd Cyfrifon

Darparwyd Cyfarwyddyd Cyfrifon gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, ac yn unol ag Atodlen 10 y Ddeddf Ynni 2004.

ISBN 978-1-4741-1745-6